# RHYBUDD O GYFARFOD

*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*

***Emyr Williams***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E.bost: parc@eryri.llyw.cymru***

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 13 Medi 2023 |
| **Amser:** | 10.00 y.b. |
| **Man Cyfarfod:** | Ystafell yr Oakeley, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog a thrwy Zoom |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorydd: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorydd: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru***
*Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde – Thompson, Ms. Delyth Lloyd.*

# R H A G L E N

**Rhifau Tudalen**

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

2. **Diweddariad Corfforaethol**
   Derbyn diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**
   Mae'r Awdurdod wedi clustnodi hyd at 20 munud ar ddechrau ei gyfarfod i roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod (ac eithrio ceisiadau cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc.

   Rhaid cyflwyno'r cwestiynau'n ysgrifenedig (trwy'r post neu e-bost) i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Chorfforaethol o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod.

4. **Datgan Diddordeb**
   Cael unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes.

5. **Cofnodion** **3 - 10**
   Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 14eg o Fehefin 2023 fel rhai cywir. (Copiiau yma)

6. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**

7. **Taflen Gweithredu** **11**
   Cyflwyno'r Daflen Gweithredu, er gwybodaeth. (Copi yma)

8. **Adroddiad Blynyddol 2022/23** **12 - 70**
   Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

9. **Adroddiad Blynyddol ar y Gwir Weithgarwch Rheolaeth Trysorlys yn 2022-23** **71 - 74**
   Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)

10. **Diweddariad o'r Gyllideb 2023/24** **75 - 84**
    Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)

11. **Cyflwyno'r cofnodion a ganlyn er gwybodaeth:-** **85 - 87**
    - Cofnodion y Cyd Weithgor Lleol a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2023.

12. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**
    Cael adroddiadau llafar gan Aelodau am unrhyw gyfarfodydd sefydliadau eraill y buont ynddynt yn ddiweddar fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

**EITEM RHIF 5**

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
**CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL**
**DYDD MERCHER 14 MEHEFIN 2023**

***YN BRESENNOL***:

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde-Thompson, Mr. Owain Wyn;

**Swyddogion**
Emyr Williams, G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Dafydd Edwards, David Williams, Bethan Hughes, Naomi Jones, Angela Jones, Anwen Gaffey.

**Ymddiheuriad**
Mrs. Sarah Hattle.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion ac y byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Cadeirydd**

   Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y drefn ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd i'r Awdurdod a dywedodd ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig dau Aelod i'r Cadeirydd, y Cynghorydd Annwen Hughes a Mr. Tim Jones, a wahoddwyd wedyn i annerch y cyfarfod.

   Derbyniodd y Cynghorydd Annwen Hughes a Mr. Tim Jones ill dau ar y gwahoddiad i annerch y cyfarfod a rhoddwyd crynodeb i'r Aelodau o'u cefndir a'u profiad.

   **Etholwyd y Cynghorydd Annwen Hughes yn Gadeirydd yr Awdurdod.**
   Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

2. **Is-Gadeirydd**

   Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig dau Aelod i fod yn Is-Gadeirydd, Mr. Tim Jones a'r Cynghorydd Edgar Owen, a wahoddwyd wedyn i annerch y cyfarfod.

   Derbyniodd y Cynghorydd Edgar Owen y gwahoddiad i annerch y cyfarfod a rhoddodd grynodeb i'r Aelodau o'i gefndir a'i brofiad. Fe wnaeth Mr. Tim Jones ddibynnu ar yr anerchiad a roddodd ar gyfer ethol y Cadeirydd.

   **Etholwyd Mr. Tim Jones yn Is-Gadeirydd yr Awdurdod.**
   Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

3. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

(1) Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r Cynghorydd Edgar Owen am ei holl waith a'i gefnogaeth fel Is-Gadeirydd dros y flwyddyn flaenorol.

(2) **Cydymdeimlad**
Mynegodd y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau, gydymdeimlad dwysaf yr Awdurdod i Mrs. Sharon Warnes, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, ar farwolaeth ddiweddar ei gŵr.

(3) Adroddodd y Cadeirydd ar gyfarfodydd a fynychwyd ers i'r Awdurdod gyfarfod yn flaenorol:-

- roedd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi mynychu cyfarfod y Pwyllgor
Safonau ar 28 Ebrill 2023.
- roedd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi mynychu'r Seminar Aelodau
Cymru yn ddiweddar a gynhaliwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i'r Aelodau o Eryri a oedd wedi mynychu'r Seminar.
- ar 1 Mehefin 2023 roedd y Cadeirydd wedi mynychu Fforwm Cadeiryddion Parciau Cenedlaethol y DU.
- roedd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi mynychu cyfweliadau yn ddiweddar i benodi Pennaeth Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth ar gyfer yr Awdurdod.

4. **Diweddariad Corfforaethol**

(1) Llongyfarchodd y Prif Weithredwr y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar eu penodiadau.

(2) Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Gweinidog wedi newid ei hamserlen yn ddiweddar ac y byddai nawr yn ymweld ag Eryri ddiwedd yr haf. Dywedodd hefyd y bydd y 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru yn cyfarfod â'r Gweinidog yn Sioe Frenhinol Cymru i drafod Newid Hinsawdd.

(3) Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Diwrnod Datblygu Aelodau wedi'i ganslo am y tro, er mwyn rhoi cyfle i'r Aelodau fynychu'r Arddangosfa Geiriau Coll sy'n cael ei lansio ar nos Wener 23 Mehefin yn Yr Ysgwrn. Anogwyd yr aelodau i ymateb i'r gwahoddiad.

(4) Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod Hafod Eryri yn mynd i ail-agor yn ystod yr wythnos i ddod. Dywedodd fod rhywfaint o waith cynnal a chadw yn parhau i fod heb ei wneud oherwydd anawsterau wrth gael contractwyr i'r copa dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

(5) Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r Cadeirydd yn cynnal Asesiadau Perfformiad Aelodau ar gyfer penodiadau Llywodraeth Cymru cyn bo hir, - y mae angen eu cwblhau erbyn dechrau mis Gorffennaf.

5. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

6. **Datgan Budd**

Datganodd Mr. Dafydd Edwards fudd yn Eitem Rhif 22 ar y Rhaglen.

7. **Aelodaeth o'r Awdurdod**

Cyflwynwyd - Adroddiad y Prif Weithredwr ar aelodaeth gyfredol yr Awdurdod , er gwybodaeth.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a gofynnodd i'r Aelodau gadarnhau bod eu manylion yn gywir a chaniatáu i'r wybodaeth gael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

8. **Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

9. **Log Gweithredu**
Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod, er gwybodaeth ac i nodi'r camau gweithredu.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a dywedodd y dylai'r Log Gweithredu aros fel y'i cyflwynwyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu, fel y'i cyflwynwyd.**

10. **Penodi Aelodau i wasanaethu ar Bwyllgorau, Paneli, Gweithgorau a Chynrychiolaeth Allanol**
Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Prif Weithredwr i benodi Aelodau i wasanaethu ar y Pwyllgorau, Paneli, Gweithgorau a Chynrychiolaeth Allanol a ganlyn.

Yn codi wedi hynny, dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr holl Bwyllgorau, Gweithgorau ac ati yn wag a bod enwau'r aelodau blaenorol wedi'u cynnwys er gwybodaeth yn unig.

**PENDERFYNWYD penodi Aelodau fel a ganlyn:-**

**(1) PWYLLGORAU**

**i)** ***Pwyllgor Cynllunio a Mynediad*** **- Holl Aelodau'r Awdurdod**

**ii)** ***Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau*** **- Holl Aelodau'r Awdurdod**

**iii)** ***Pwyllgor Safonau*** (Tymor y Swydd wedi'i sefydlu gan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001).
**Y Cynghorwyr Dilwyn Roberts, Elfed Roberts; Sarah Hattle.**
**+ 3 Aelod Annibynnol**

**(2) PANELAU**

**i)** ***Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl***
**3 Aelod + 2 ddirprwy Aelod i'w tynnu o aelodaeth y Pwyllgor Safonau gan y Pwyllgor Safonau**

**(3) GWEITHGORAU**

**i)** ***Gweithgor Aelodau*** **- Holl Aelodau'r Awdurdod**

**ii)** ***Cyd Weithgor Lleol***
**Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Kim Jones, Ifor Glyn Lloyd; Sarah Hattle.**

**iii)** ***Bwrdd Rheoli'r Ysgwrn***
**Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Elfed Powell Roberts; Ms. Naomi Luhde-Thompson.**

**iv)** ***Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch***
**Y Cynghorydd Meryl Roberts; Ms. Tracey Evans, Mr. Tim Jones.**

**(4) PWYLLGORAU YMGYNGHOROL YR AWDURDOD**

i) ***Cynhadledd Ymgynghorol Celyn, Tegid a Thryweryn***
**Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Ifor Glyn Lloyd, June Jones;**
**Mr. Brian Angell.**

ii) ***Fforwm Eryri***
**Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd)**
**Mr. Tim Jones (Is-Gadeirydd)**
**Y Cynghorwyr Kim Jones, Jo Nuttall; Mr. Brian Angell.**

iii) ***Fforymau Mynediad Lleol***
***De*** **: Y Cynghorydd John Pughe Roberts**
***Gogledd*** **: Mr. Tim Jones**

iv) ***Fforwm Cydraddoldeb Eryri***
**Y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd**

**(5) GRWPIAU TASG A GORFFEN**

i) ***Is-grŵp Asedau***
**Y Cynghorwyr June Jones, Ifor Glyn Lloyd, Meryl Roberts;**
**Mr. Brian Angell, Ms Tracey Evans, Mr. Tim Jones.**

(ii) **Grŵp Maniffesto Ieuenctid Europarc**
**Cynghorwyr Kim Jones, John Pughe Roberts; Ms. Tracey Evans.**

(iii) **Grŵp Llywio'r Cyfrif Carbon**
**Cynghorydd John Pughe Roberts; Mr. Brian Angell, Mr. Tim Jones.**

(iv) **Grŵp Llywio Enwau Lleoedd**
**Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, June Jones, Dilwyn Roberts.**

**(6) CYRFF ERAILL**

i) ***Grŵp Rhanddeiliaid Trawsfynydd***
**Y Cynghorydd Elfed Powell Roberts**

ii) ***Cyd-gyngor Cymru***
**Y Cynghorydd Louise Hughes**

iii) ***Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Pwyllgor Cyswllt Lleol Beddgelert***
**Y Cynghorydd June Jones.**
**Yn codi wedi hynny, cytunodd y Prif Weithredwr i ysgrifennu at yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i ganfod a oedd y corff hwn yn dal yn weithredol.**

iv) ***Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol***
**(Cynrychiolir y 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymreig gan Aelod o'r Awdurdod sy'n dal Ysgrifenyddiaeth Parciau Cenedlaethol Cymru, a ddelir ar hyn o bryd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)**

v) **Cynghrair Tirweddau Dynodedig Cymru**
**Mr. Tim Jones**

**vi)** ***<u>Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</u>***
**Y Cynghorydd Dilwyn Roberts**

**vii)** ***<u>Pen Llyn a'r Sarnau (ACA)</u>***
**Y Cynghorydd Louise Hughes**

**viii)** ***<u>Grŵp Gweithredol Menter Goriad Gwyrdd Eryri</u>***
**Y Cynghorydd June Jones**

**ix)** ***<u>Fforwm Strategol Rhaglen Ynys Ynni</u>***
**Y Cynghorydd Elfed Roberts**

**x)** ***<u>Partneriaeth Biosffer Dyfi</u>***
**Y Cynghorydd Louise Hughes**

**xi)** ***<u>Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian</u>***
**Y Cynghorydd Meryl Roberts**
**(Wrth Gefn – Ms. Delyth Lloyd)**

11. **Adroddiad Blynyddol i'r Awdurdod**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad blynyddol ar ran Cadeirydd y Pwyllgor Safonau. Rhoddwyd y cefndir i'r aelodau ac fe'u hysbyswyd ynghylch y ddyletswydd statudol ychwanegol a osodwyd ar y Pwyllgor Safonau i baratoi adroddiad blynyddol i'r Awdurdod.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

12. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w lofnodi gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 202 2/23. Yn codi wedi hynny, ac mewn ymateb i gwestiynau:-

- <u>Gwerthusiadau a Hyfforddiant Perfformiad Staff</u>
  rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd i'r Aelodau fod y broses werthuso staff eisoes wedi dechrau ar gyfer 2023.
- <u>Iechyd a Diogelwch</u>
  dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, yn dilyn asesiad allanol diweddar, fod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r methiannau presennol a bod cytundeb gwasanaeth yn cael ei geisio naill ai gyda Chyngor Gwynedd neu Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- <u>Archwilio Cymru Twristiaeth Gynaliadwy</u>
  <u>Cynigion ar gyfer Gwella</u> - cytunodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i gynnwys mwy o fanylion o dan y pennawd hwn.
- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod cyfarfodydd yr Awdurdod a chyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad yn cael eu ffrydio'n fyw a'u bod ar gael ar YouTube. Hefyd, roedd modd i aelodau'r cyhoedd fynychu'n bersonol ym Mhlas Tan y Bwlch.

**Yn ddarostyngedig y cynhwysir y manylion ychwanegol fel yr amlinellwyd uchod, PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.**

13. **(Drafft) Rhaglen Waith Gorfforaethol 2023/24**
Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i Aelodau drafod a mabwysiadu'r Rhaglen Waith Gorfforaethol (Drafft) fel dogfen waith ar gyfer 2023/24.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y Rhaglen Waith Gorfforaethol (Drafft). Croesawodd yr aelodau'r ddogfen a oedd, yn eu barn nhw, wedi'i hysgrifennu'n dda ac yn hawdd ei deall.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a mabwysiadu'r Rhaglen Waith Gorfforaethol (Drafft) yn ffurfiol fel dogfen waith ar gyfer 2023-24.**

14. **Presenoldeb Aelodau**
Cyflwynwyd – Adroddiad gwybodaeth gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn manylu ar bresenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a Phwyllgorau o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad . Yn codi wedi hynny, cytunodd y swyddogion i gywiro'r adroddiad Cymraeg i ddarllen y Cyng. *June* Jones.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**

15. **Safonau'r Gymraeg**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ynghyd ag Adroddiad Monitro Safonau Iaith yr Awdurdod 20 22/23.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad a'r cefndir a chymerodd y cyfle i ddiolch i'r tri aelod o'r Grŵp Llywio am eu mewnbwn a'u cefnogaeth wrth ddatblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg newydd ar gyfer yr Awdurdod.

Yn codi o ganlyniad i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr Awdurdod wedi cytuno yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2022 i ddefnyddio *Yr Wyddfa* ac *Eryri,* gyda'r enwau Saesneg mewn cromfachau, am gyfnod o 2 flynedd.

**PENDERFYNWYD**
1. **cymeradwyo'r adroddiad a diolch i'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer am ei gwaith.**
2. **awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i gyhoeddi Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg 2022/23 ar wefan yr Awdurdod.**

16. **Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Eryri 2021/2**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Partneriaethau ar ail flwyddyn gweithredu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol o 2021/22.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Rheolwr Partneriaethau yr adroddiad a oedd yn rhoi amlinelliad o'r pwyntiau allweddol i'w nodi, a'r Adroddiad Monitro Blynyddol a oedd yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed yn 2022. Roedd y Rheolwr Partneriaeth yn falch o adrodd nad oedd unrhyw ganlyniadau a aseswyd fel rhai *'Heb symud ymlaen a/neu mewn perygl risg'* a olygai fod pob amcan ar y trywydd iawn i gael ei gyflawni o fewn amserlen y cynllun cyffredinol. Nododd yr aelodau hefyd y bwriad i ychwanegu at ficrosafle Cynllun Eryri yn dilyn mabwysiadu'r Adroddiad Monitro heddiw. Yn olaf, manteisiodd y Rheolwr Partneriaethau ar y cyfle i ddiolch i bob un o'r partneriaid am eu cyfraniad gwerthfawr a'u cefnogaeth.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r Adroddiad Monitro Blynyddol a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Croesawodd yr aelodau yr adroddiad manwl a'r fformat.
- mewn ymateb i gais gan Aelod am wybodaeth am Rywogaethau Estron Goresgynnol (RhEG) fel Canclwm Japan, cytunodd y Rheolwr Partneriaethau i wneud ymholiadau a darparu dolenni i bob Aelod i wybodaeth bellach am y rhywogaethau ymledol a sut y gall y cyhoedd adrodd am eu bodolaeth.
- nododd Aelod gan fod yr Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â Grŵp Cynefin ar leihau allyriadau carbon ac ar strategaeth sgiliau a chyflogaeth, gofynnwyd i swyddogion ystyried gwahodd cymdeithasau tai eraill megis 'Adra' i ymuno â'r bartneriaeth.
- o ran lleihau allyriadau carbon, dywedodd y Prif Weithredwr ei fod, yn ogystal â gweithio gyda'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall yng Nghymru, wedi ysgrifennu at y ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol ac y bydd yn cyfarfod â Phrif Weithredwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Gwynedd i barhau â'r gwaith hwn ar sail ranbarthol.
- cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod yr Awdurdod yn parhau i gefnogi'r gwaith o nodi eiddo gwag y gellir eu datblygu at ddefnydd busnes neu dai.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyflawni Cynllun Eryri.**

17. **Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn 2022-23**

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol i roi diweddariad i'r Aelodau ar weithgarwch yn Yr Ysgwrn.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yr Adroddiad Blynyddol a dywedodd mai 2022/23 oedd y flwyddyn gyntaf i'r Ysgwrn weithredu heb unrhyw grant ychwanegol. Yn codi wedi hynny, cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai gwaelodlin realistig yn cael ei osod ar gyfer Yr Ysgwrn yn y dyfodol.

Croesawodd yr aelodau yr adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Diolchodd yr aelodau i'r Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol am yr adroddiad blynyddol gan ddiolch i holl staff a gwirfoddolwyr Yr Ysgwrn am eu gwaith, ac am weithio'n agos gyda'r gymuned leol a Chyngor Cymuned Trawsfynydd.
- Nododd yr aelodau y byddai adnodd addysg newydd ar gael o fis Medi. Bydd hyn yn rhoi cyfle pellach i'r Ysgwrn weithio gydag ysgolion lleol, yn ogystal ag ysgolion leoliadau pellach i ffwrdd, i ddarparu profiadau i blant a chyfrannu at y cwricwlwm newydd.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr Adroddiad Blynyddol, er gwybodaeth.**

18. **Adrotddiad y Gweithgor Aelodau**

Cyflwynwyd – Adroddiad y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2023.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

19. **Cyfarfodydd Cyrff eraill**

Nid oedd yr aelodau wedi mynychu cyfarfodydd allanol fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

20. **Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:-

(1) Cofnodion Cyfarfod Gweithredol Parciau Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2022.

(2) Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023.
(3) Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2023.

21. **Swyddog Adran 151**
**Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972: Esemptiad rhag datgelu dogfennau**
Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn gofyn am gymeradwyaeth yr Awdurdod i eithrio'r adroddiad dilynol.

**PENDERFYNWYD bod y dilynol adroddiad "Swyddog Adran 151" yn cael ei eithrio rhag cael ei ddatgelu am y rhesymau a amlinellwyd yn yr adroddiad.**

22. **Swyddog Adran 151**
Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Prif Weithredwr ar benodi Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) i'r Awdurdod, ynghyd â chopi o Curriculum Vitae Mr. Dewi Morgan.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad ac atgoffodd yr Aelodau fod yr Awdurdod, yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2023, wedi penderfynu cymeradwyo mewn egwyddor i benodi Pennaeth Cyllid (Swyddog a151) Cyngor Gwynedd yn Swyddog Adran 151 yr Awdurdod. Cyflwynodd Mr. Dewi Morgan ei hun i'r Aelodau a derbyniodd gwestiynau o'r llawr.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd y penodiad yn creu gwrthdaro o ran buddiannau.

Diolchodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i Mr. Dafydd Edwards am ei wasanaeth hir a'i ymrwymiad yn ystod ei gyfnod gyda'r Awdurdod dros yr 20 mlynedd diwethaf.

**PENDERFYNWYD cynnig swydd y Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) i Mr. Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog a151) Cyngor Gwynedd, fel yr amlinellwyd.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.05**

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 08.02.2023

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 16. Telerau ac Amodau Gwasanaeth Uwch Dîm Rheoli APCE: Cyfarwyddwyr | - **y dylai'r Panel, ynghyd â'r Swyddog Monitro a'r Pennaeth Adnoddau Dynol, ystyried telerau ac amodau'r Prif Weithredwr ymhellach, a chyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf yr Awdurdod os oes angen.** | Angen cynnal cyfarfod i roi ystyriaeth i'r materion, dyddiad eto i'w gytuno. | Cadeirydd / NM/GIJ | Wrthi'n casglu'r wybodaeth ofynnol ar hyn o bryd er mwyn galluogi trafodaeth lawn mewn cyfarfod yn y dyfodol.<br>DIWEDDARIAD - Panel i gyfarfod ar 20 Medi 2023 am 10.00 y.b. | **NA** |
| | - **bod gan y Panel, ynghyd â'r Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Swyddog Adran 151 newydd, y dasg a'r awdurdod i fynd i'r afael â materion posibl yn deillio o drosiant personél yn yr Uwch Dîm Rheoli.** | Angen cynnal cyfarfod i roi ystyriaeth i'r materion, dyddiad eto i'w gytuno. | NM | Wedi ei nodi ac yn monitro'r sefyllfa. | **NA** |

**EITEM RHIF 8**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 13 Medi 2023 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-23** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Argymell mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol a chymeradwyo ei gyhoeddi |

## 1. CEFNDIR

1.1 Rwyf wedi atodi drafft o'r Adroddiad Blynyddol gyda'r adroddiad hwn. Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw adrodd yn ffurfiol ar y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod o ran gwireddu ei Amcanion Llesiant. Mabwysiadwyd Amcanion Llesiant yr Awdurdod gan yr Awdurdod yn ei Ddatganiad Llesiant 2021-26. Bydd mwyafrif y gwaith a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol wrth gwrs yn faes cyfarwydd gan fod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wedi bod yn monitro cynnydd ar hynny ar sail chwarterol. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad hwn yn ceisio rhoi trosolwg o'r sefyllfa ar ddiwedd 2022-23 er mwyn deall yn well y cynnydd a wnaed hyd yma yn ogystal â'r heriau sy'n parhau.

1.2 Mae’r Adroddiad Blynyddol a’r Cynllun Gwelliant sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

1.2.1 Adroddiad y Cadeirydd am y cyfnod 2022/23 sy'n nodi sut mae'r Awdurdod wedi perfformio yn ystod y flwyddyn flaenorol (mis Ebrill i fis Mawrth), yr hyn a gyflawnwyd, yr hyn na chyflawnwyd a'r problemau a gafwyd;
1.2.2 Manylion am yr ardal a gwmpesir gan y Parc yn ogystal â sail statudol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri;
1.2.3 Manylion Gweledigaeth Gorfforaethol yr Awdurdod sy'n nodi'r hyn yr ydym yn ymdrechu i'w gyflawni a'i adael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;
1.2.4 Manylion Datganiad Llesiant yr Awdurdod a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy;
1.2.5 Sut y gosodwyd Amcanion Llesiant yr Awdurdod;
1.2.6 Gwerthusiad cryno o'r cynnydd a wnaed o ran cyrraedd Amcanion Llesiant yr Awdurdod;
1.2.7 Rheoli Perfformiad;
1.2.8 Y Fframwaith Gwelliant; a
1.2.9 Manylion cyswllt

## 2. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

2.1 Mae'r Cynllun yn nodi sut y perfformiodd yr Awdurdod o ran cyflawni ei flaenoriaethau yn ystod 2022/23 ac felly ni fydd yn effeithio ar sut y caiff cyllideb yr Awdurdod ei gwario.

## 3. ARGYMHELLIAD

**Bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol ac yn cymeradwyo ei gyhoeddi.**

## PAPURAU CEFNDIR

## AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

# ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER 2022/23

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr asesiadau a nodir o'i fewn, a'r rhagdybiaethau a'r rhagamcanion y maent yn seiliedig arnynt. Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am sefydlu systemau rheoli mewnol a rheoli perfformiad priodol ac o'r rhain y deilliodd y wybodaeth a'r asesiadau sydd yn y Cynllun. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod yr wybodaeth a'r asesiadau sydd yn y cynllun yn gywir a chyflawn yn eu hanfod a bod y cynllun yn realistig ac yn gyraeddadwy.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd, LL48 6LF
www.eryri.llyw.cymru

☎01766 770274 🖹 01766 771211 parc@eryri.llyw.cymru

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# AR GYFER 2022/23


| Rhan | | Tudalen(nau) |
|---|---|---|
| 1. | Adroddiad y Cadeirydd | 1 – 9 |
| 2. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 10 |
| 3. | Gweledigaeth | 11 |
| 4. | Datganiad Llesiant a’r Egwyddor Ddatblygu Cynaliadwy | 11 – 14 |
| 5. | Gosod Amcanion Llesiant yr Awdurdod | 14 – 16 |
| 6. | Amcanion Llesiant yr Awdurdod gyda gwerthusiad cryno o’r cynnydd a wnaed hyd yma | 16 – 54 |
| 7. | Rheoli Perfformiad | 54 |
| 8. | Y Fframwaith Gwella | 55 |
| 9. | Manylion Cyswllt | 57 |

# 1. ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Pleser o’r mwyaf yw cyflwyno Adroddiad Cadeirydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol i chi, sy’n manylu ar ein gwaith, ein cyflawniadau a’n heriau trwy gydol blwyddyn ariannol 2022/23. Fel ceidwad un o’r tirweddau mwyaf godidog ac ecolegol amrywiol yn y byd, rydym yn parhau i gofleidio ein dyletswyddau i warchod, gwella a hyrwyddo harddwch unigryw a threftadaeth ddiwylliannol Eryri.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein cydymdrechion ar y cyd wedi'u nodi gan lwyddiannau a chamau sylweddol o ran mynd i'r afael â gofynion amlochrog cadwraeth, ymgysylltu â'r gymuned a datblygu cynaliadwy. Mae’r adroddiad yma’n rhoi trosolwg cynhwysfawr o’r mentrau yr ydym wedi ymgymryd â nhw, y partneriaethau yr ydym wedi’u meithrin, a’r effeithiau cadarnhaol yr ydym wedi’u creu yn y Parc a’r ardaloedd cyfagos.

Yn wyneb heriau amgylcheddol a chymdeithasol esblygol, mae ein hymrwymiad i strategaethau rheoli synhwyrol yn parhau i fod yn gadarn. Rydym wedi gweithio’n ddiflino i sicrhau cydbwysedd rhwng diogelu ecosystemau bregus y parc a chroesawu dyheadau ein cymunedau sy’n galw’r dirwedd hudolus hon yn gartref iddynt. Mae hyn yn dyst i ysbryd cydweithredol ein staff ymroddedig, ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr, a mewnbwn amhrisiadwy gan drigolion a busnesau lleol.

Rhaid imi bwysleisio arwyddocâd y partneriaethau sydd wedi’u meithrin a’u cryfhau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae ein perthynas â chyrff llywodraethol, sefydliadau dielw, sefydliadau addysgol, a'r sector breifat wedi bod yn allweddol wrth gydweithio ar ein mentrau. Mae cyfuno arbenigedd ac adnoddau wedi ein galluogi i fynd i'r afael â heriau cymhleth gydag egni newydd ac atebion arloesol.

I gloi, mae Adroddiad y Cadeirydd hwn yn dyst i'r ymroddiad a'r angerdd sy'n curo calon Eryri. Wrth inni fyfyrio ar lwyddiannau blwyddyn ariannol 2022/23, gadewch inni hefyd edrych ymlaen yn optimistaidd ac yn benderfynol. Mae ein hymrwymiad i warchod holl ecoleg, treftadaeth ddiwylliannol, a bywiogrwydd economaidd-gymdeithasol Eryri yn parhau’n ddiwyro, wrth i ni barhau i ysgrifennu pennod nesaf y daith ryfeddol hon.

Hoffwn ddiolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu at lwyddiant Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac rwy’n edrych ymlaen yn eiddgar at y cyfleoedd cyffrous sydd o’n blaenau.

**Annwen Hughes**

**Cadeirydd, Awdurdod y Parc Cenedlaethol**

**Gwella profiad ymwelwyr**

Ar gyfer ein prif waith cyfathrebu yn nhymor yr Haf 2022, fe weithredwyd ymgyrch ar y cyd gyda'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall yng Nghymru, gyda'r nod o wella deallusrwydd am rinweddau arbennig unigryw ein Parciau Cenedlaethol tra'n hyrwyddo ymddygiad cyfrifol gan ymwelwyr. Llwyddodd yr ymgyrch nid yn unig i ddathlu rhinweddau arbennig ein Parc Cenedlaethol ond hefyd i gyfleu pwysigrwydd cadw at y cod cefn gwlad. Trwy allgymorth digidol arloesol, cynnwys deniadol, a chyfathrebu strategol, fe wnaethom gyrraedd sbectrwm eang o gynulleidfaoedd, gan ddylanwadu'n effeithiol ar ymddygiad ymweld cadarnhaol. At hynny, roedd ein ffrynt unedig yn ein galluogi i fynd i'r afael â mater dybryd gwersylla anghyfreithlon, gan gyfleu safiad cryf yn erbyn arferion o'r fath. Yn ystod yr ymgyrch, cawsom dros 20 miliwn o ymgysylltiadau rhwng ein gwaith yn y wasg a chyfrifon cyfryngau digidol.

Mae uwchraddio canolfan wybodaeth Betws-y-coed wedi'i fodloni gyda brwdfrydedd. Mae cyflwyno blwch tywod rhyngweithiol o'r radd flaenaf yn gam ymlaen yn ein hymdrechion i addysgu ac ymgysylltu â'r cyhoedd am ryfeddodau daearegol ein tirweddau. Mae'r nodwedd arloesol hon yn galluogi ymwelwyr i fowldio tywod yn ffisegol, gan weld drostynt eu hunain y prosesau trawsnewidiol sydd wedi llunio tirwedd syfrdanol Eryri. Trwy dafluniadau amser real ac arddangosiadau a dehongliad llawn gwybodaeth, mae'r blwch tywod rhyngweithiol yn darparu profiad trochi a chyfareddol, gan wneud daeareg yn hygyrch ac yn ddeniadol i bob oed.

Mae llwyddiant ein teithiau cerdded misol dan arweiniad ein wardeniaid ymroddedig, yn parhau i gynnig ystod amrywiol o gyfleoedd hamdden i unigolion o bob oed a gallu. Mae'r llwybrau hyrwyddedig hyn nid yn unig yn arddangos harddwch digymar Eryri ond hefyd yn sicrhau hygyrchedd a chynhwysiant i bawb. O droeon hamddenol i heiciau mwy heriol, mae ein wardeniaid yn darparu'n fedrus ar gyfer dewisiadau a lefelau ffitrwydd amrywiol, gan feithrin cysylltiad dyfnach rhwng ein cymunedau a rhyfeddodau naturiol y Parc Cenedlaethol. Mae'r ymdrechion hyn yn enghraifft o'n hymrwymiad parhaus i hyrwyddo ymgysylltiad awyr agored a meithrin gwerthfawrogiad gydol oes o Eryri.

Yn y flwyddyn dan sylw, cymerwyd camau breision ym menter Yr Wyddfa Di-blastig. Diffiniwyd cwmpas y prosiect, gan gwmpasu'r parth gweithredu dynodedig. Sefydlwyd meini prawf clir, egwyddorion arweiniol, ac amserlen ymgyrchu gynhwysfawr ar gyfer 2023, gan baratoi'r ffordd ar gyfer treialon sydd ar ddod. Buom yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gyflwyno uchelgeisiau'r prosiect i Fforwm Eryri a Phartneriaeth yr Wyddfa. Casglwyd mewnwelediadau gwerthfawr drwy ymgynghoriadau â thirfeddianwyr a ffermwyr lleol, gan daflu goleuni ar yr heriau a'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth ailosod plastigion untro. Arweiniodd ymdrechion ar y cyd â busnesau lleol at addasiadau i fframwaith Cynllun Busnes Yr Wyddfa Di-blastig, cam hollbwysig yn esblygiad y prosiect. Buom hefyd yn cydweithio ag Ysgol Dolbadarn i greu asedau brandio cymhellol ar gyfer y prosiect.

Cwblhawyd y gwaith yn llwyddiannus ar lwybr Bwlch Maescwm, rhan ganolog o gylchdaith Cylchdaith yr Wyddfa. Mae'r gamp hon yn anferthol gan fod y llwybr, sy'n cysylltu Rhyd Ddu â Llanberis, bellach yn llwybr mynediad i'r mynydd. Mae'r cyflawniad hwn nid yn unig yn gwella cysylltedd o fewn ein Parc Cenedlaethol ond hefyd yn tanlinellu ein hymrwymiad i ddarparu profiadau cynhwysol a hygyrch i bob ymwelydd.

Mae cwblhau'r llwybr yn gam sylweddol ymlaen o ran hyrwyddo ymgysylltiad awyr agored cyfrifol tra'n cadw harddwch naturiol Eryri.

Mae'n bleser gennyf dynnu sylw at lwyddiant rhyfeddol ein gwefan, a gafodd bron i 3 miliwn o ymweliadau â thudalennau. Mae'r ymgysylltu ar-lein sylweddol hwn yn tanlinellu'r diddordeb a'r gwerthfawrogiad cynyddol am Barc Cenedlaethol Eryri. Mae ein gwefan wedi dod yn borth i arlwy amrywiol y parc, gan ddarparu gwybodaeth werthfawr i gynulleidfa eang. Mae'r platfform digidol hwn nid yn unig wedi meithrin mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd ond mae hefyd wedi bod yn adnodd addysgol, gan hyrwyddo ymweliadau cyfrifol, stiwardiaeth amgylcheddol, a chyfoethogi diwylliannol.

**Ymateb i'r her newid hinsawdd**

Mae effeithlonrwydd ynni a lleihau ein hôl troed carbon o fewn adeiladau sy'n eiddo i'r Awdurdod wedi bod yn ganolog i'n Cynllun Rheoli Asedau newydd. Mae'r newid strategol hwn yn cyd-fynd yn unol â thargedau Ffyniant i Bawb Cymru – Stadau Cyhoeddus Carbon Isel. Trwy wneud cynaliadwyedd yn ffocws craidd, nid yn unig yr ydym yn lleihau ein heffaith amgylcheddol ond hefyd yn arwain y ffordd ar gyfer rheolaeth cyfrifol.

Mae unedau gwefru cerbydau trydan wedi'i gosod mewn rhai o feysydd parcio'r Awdurdod. Mae'r fenter hon yn adlewyrchu ein hymrwymiad i drafnidiaeth gynaliadwy a lleihau allyriadau o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Wrth edrych ymlaen, mae gennym gynlluniau uchelgeisiol i ehangu'r ddarpariaeth hon ymhellach yn y flwyddyn i ddod. Trwy hwyluso isadeiledd gwefru cerbydau trydan, nid yn unig ein bod yn annog teithio cydwybodol ond rydym hefyd yn gosod Eryri fel cyrchfan groesawgar ar gyfer cyfnod newydd o dwristiaeth wyrdd.

**Gwella deallusrwydd ein treftadaeth diwyllianol**

Llwyddodd Yr Ysgwrn i sicrhau cymorth ariannol ar gyfer rhaglen unigryw o weithgareddau Haf o Hwyl gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllid yma wedi galluogi'r ganolfan i gynnig profiadau difyr i ymwelwyr o bob oed gan ychwanegu gwerth a phrofiadau at eu hamser yn Yr Ysgwrn. Mae'r data incwm yn atgyfnerthu effaith gadarnhaol y digwyddiadau hyn, gan ddangos refeniw uwch ar ddiwrnodau pan gynhelir gweithgareddau. Mae ansawdd ein rhaglen yn parhau i fod yn hollbwysig er mwyn cynnal gweithgareddau a sicrhau bod treftadaeth a diwylliant Eryri yn parhau i ffynnu. Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf, mae'r Ysgwrn yn edrych ymlaen yn eiddgar at groesawu'r arddangosfa Geiriau Diflanedig mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru.

**Mynd i'r afael a sialensau a cyfleon rheolwyr tir yn sgil Brexit**

Mae ein hymrwymiad i gynnal perthynas weithio agos gyda rheolwyr tir, ffermwyr a'r undebau ffermio wedi bod yn hanfodol wrth lywio goblygiadau Brexit ar reoli tir o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae'r dull cydweithredol yma o sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i fod yn wybodus am dirwedd esblygol rheoliadau a pholisïau ar ôl Brexit. Trwy feithrin cyfathrebu agored a chyfnewid gwybodaeth, rydym yn ymdrechu i addasu ac alinio ein strategaethau i'r anghenion a'r heriau newidiol a wynebir gan y rhai sy'n stiwardio ein tiroedd. Mae'r bartneriaeth barhaus hon yn tanlinellu ein hymroddiad i wneud

penderfyniadau rhagweithiol a gwybodus, gan ddiogelu cyfanrwydd amaethyddol Eryri yn y cyfnod ar ôl Brexit.

**Brwydro'n erbyn dirywiad natur**

Mae mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur yn parhau i fod yn un o'n prif flaenoriaethau. Trwy waith adfer mawndiroedd, mae ein tîm yn ail-adfer ein hecosystemau hanfodol, yn hybu bioamrywiaeth, ac yn storio carbon. Ar yr un pryd, mae ein mentrau plannu coed yn adfywio tirweddau, yn gwella ein cynefinoedd ac yn brwydro yn erbyn newid hinsawdd. Yn ogystal â hyn, mae ein gwaith blaenllaw ym Mhrosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE yn tanlinellu ein hymrwymiad i warchod ein cynefinoedd unigryw. Mae'r cydymdrechion hyn yn cadarnhau ein hymroddiad i atal y dirywiad mewn natur yn Eryri, gan sicrhau amgylchedd iach a gwydn i'n trigolion.

**Gwella ansawdd bywyd ein trigolion**

Mae gweithredu strategaeth gwirfoddoli'r Awdurdod wedi bod yn allweddol yn ein hymdrechion i gyfoethogi profiad Parc Cenedlaethol Eryri. Gan gydweithio'n agos gyda'n partneriaid megis Cymdeithas Eryri, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Bartneriaeth Awyr Agored ar gynllun Caru Eryri, llwyddwyd i ehangu'r ddarpariaeth o gyfleoedd gwirfoddoli ar draws yr ardal. Cyflawnodd tîm Caru Eryri waith rheoli ymwelwyr pwysig ar hyd y llwybrau prysuraf yn Eryri gan ddarparu cefnogaeth ar lawr gwlad i'r gwasanaeth Wardeinio trwy ymgynghori a'r cyhoedd a chadw'r llwybrau a meysydd parcio yn glir o sbwriel. Roedd y llwybrau'n cynnwys llwybrau Llanberis, Watkin, Rhyd Ddu a Cwellyn, Llyn Dinas ac Aberglaslyn, Capel Curig, Ogwen a Llyn Tegid. Trefnwyd shifftiau rheolaidd bob dydd Gwener, Sadwrn a Sul, gyda chynnal a chadw llwybrau troed ar ddydd Mercher.

Mae Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa wedi gwneud gwahaniaeth hynod bositif unwaith eto o ran patrolio'r llwybrau'r mynydd eiconig. Eleni mae presenoldeb Warden wedi bod ar Yr Wyddfa am 77 diwrnod. Mae 36 o Wardeniaid Gwirfoddol wedi gwirfoddoli ac wedi rhoi cyfanswm o 272 o shifftiau. Mae hyn yn cyfateb i 1600+ o oriau gwirfoddol, gan lenwi tua 300 o fagiau o sbwriel, a bod o gymorth i dros 3000 o bobl.

Yn 2022 am y tro cyntaf, cafodd Wardeiniaid Gwirfoddol eu recriwtio hefyd i gynorthwyo'r Wardeniaid ar Gader Idris. Ymaelododd 11 o wirfoddolwyr newydd yn arbennig ar gyfer y rôl hon. Cwblhawyd cyfanswm o 35 o shifftiau, sef 220 o oriau gwirfoddol.

Mae creu cyfres o 8 fideo sy'n amlygu ein llwybrau hygyrch mwyaf poblogaidd wedi bod yn arwyddocaol o ran gwella dealltwriaeth y cyhoedd a'r defnydd o'r adnoddau gwerthfawr hyn. Mae'r fideos hyn yn ganllawiau llawn gwybodaeth, gan gynnig cipolwg ar y nodweddion unigryw a'r rhyfeddodau naturiol ar hyd y llwybrau. Trwy ddarparu cynnwys gweledol deniadol, nid yn unig ein bod wedi hyrwyddo hygyrchedd ond hefyd wedi annog unigolion i ymchwilio a gwerthfawrogi tirweddau amrywiol Eryri. Mae'r fideos hyn yn enghraifft o'n hymrwymiad i addysg a chynwysoldeb, gan sicrhau bod manteision y llwybrau hyn ar gael yn hawdd i bawb.

**Cefnogi ein ieuenctid**

Dros y flwyddyn ddiwethaf ail-lansiwyd ein cynllun Ceidwaid Ifanc yn llwyddiannus. Nid yn unig mae'r fenter yma'n cynnig cyfle i unigolion ifanc ymgysylltu'n â'u hamgylchedd ond mae hefyd yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach iddynt o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Trwy weithgareddau ymarferol a phrofiadau addysgol mae cyfranogwyr yn cael gwerthfawrogiad uniongyrchol o'n hamgylchedd naturiol, diwylliannol a chyfleoedd hamdden. Mae adfywiad y cynllun yn nodi buddsoddiad sylweddol yn ein dyfodol, gan rymuso ein hieuenctid gyda gwybodaeth a brwdfrydedd i ddod yn stiwardiaid ymroddedig o dirwedd a threftadaeth unigryw Eryri.

**Hyrwyddo ymweliadau cynaladwy**

Mae'r ymgais i weithredu argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad trafnidiaeth a pharcio yn ardaloedd Yr Wyddfa ac Ogwen yn cael ei hadlewyrchu ein hymrwymiad i reolaeth gynaliadwy rhagweithiol. Trwy ymdrechu ar y cyd â phartneriaid, mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud. Mae llwyddiant system rhag-archebu Pen y Pass yn ystod y tymhorau brig, wrth ddatrys problemau ceir yn parcio ar y glirffordd, i'w ganmol. Yn ychwanegol i hyn mae'r gefnogaeth gan Trafnidiaeth Cymru, Cyngor Gwynedd, a'r Awdurdod i wella gwasanaeth Sherpa'r Wyddfa yn sicrhau profiad positif ar gyfer ymwelwyr yng nghyfnod y tymor brig. Mae'r llwyddiannau hyn yn dangos ein hymroddiad i atebion cynaliadwy a phrofiadau gwell i ymwelwyr, gan osod Eryri fel model ar gyfer parcio cyfrifol a rheoli trafnidiaeth ym Mhrydain.

**Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg**

Gwnaed penderfyniad hollbwysig gan yr Awdurdod i ddefnyddio'r termau Cymraeg "Eryri" ac "Yr Wyddfa" yn unig wrth gyfeirio at yr enwau Saesneg Eryri a'r copa eiconig, Snowdon. Mae'r dewis yma'n ganolog i'n hymrwymiad i ddiogelu'r Gymraeg a diogelu diwylliant lleol. Trwy gofleidio'r traddodiadau hyn, rydym yn gwarchod treftadaeth ieithyddol a hanesyddol y rhanbarth, tra'n arddangos ein hunaniaeth unigryw ar raddfa ryngwladol. Mae ein hymroddiad i ddefnyddio Eryri a'r Wyddfa yn unig yn tanlinellu ein rôl fel ceidwaid ein hetifeddiaeth ddiwylliannol, gan sicrhau bod yr elfennau gwerthfawr hyn yn parhau i fod yn rhan annatod o wead ein gorffennol, presennol, a dyfodol.

Mae ein hymdrechion parhaus i ddiogelu a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael eu llunio trwy ddatblygu canllaw cynhwysfawr i enwau lleoedd. Bydd y canllaw hwn yn adnodd gwerthfawr, gan sicrhau cysondeb a dilysrwydd yn y defnydd o enwau lleoedd ac atgyfnerthu ein hymrwymiad i gynnal diwylliant Eryri.

**Datblygu’r economi leol**

Mae cydweithio gyda thîm Eryri Mynyddoedd a Môr o Gyngor Gwynedd wedi bod yn allweddol yn ein hymdrechion parhaus i hybu’r economi leol. Mae mentrau fel y Cynllun Busnes Di-blastig a Chynllun Llysgenhadon Eryri yn enghraifft o'n hymrwymiad i dwristiaeth gynaliadwy. Nid yn unig mae’r prosiectau yn gwella profiad yr ymwelydd ond hefyd yn hybu busnesau lleol ac yn hyrwyddo arferion cyfrifol.

**Gweithio mewn partneriaeth**

Mae ailddechrau cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda’r Fforymau Mynediad Lleol yng ngogledd a de'r parc wedi bod yn gam arwyddocaol tuag at wella cydweithrediad a dealltwriaeth rhwng tirfeddianwyr a defnyddwyr hamdden yn Eryri. Yn sgil y pandemig, mae'r fforymau hyn wedi ailgynnau deialog hanfodol, gan feithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb ar y cyd fel ceidwaid y Parc. Maent wedi profi i fod yn lwyfannau amhrisiadwy ar gyfer mynd i'r afael â phryderon, rhannu safbwyntiau, a meithrin partneriaethau cynhyrchiol. Mae'r adferiad hwn yn cadarnhau ein hymrwymiad i arferion rheoli cynhwysol a chydweithredol sydd o fudd i holl randdeiliaid Eryri.

Mae Rhaglen Llysgenhadon Eryri wedi cyflawni carreg filltir arbennig, bellach mae dros 700 o unigolion wedi eu cymhwyso yn y fenter hon. Mae llwyddiant y rhaglen yn arwydd o’n hymrwymiad i rymuso unigolion â gwybodaeth am rinweddau arbennig unigryw’r ardal. Fel llysgenhadon, mae’r unigolion hyn yn dod yn adnoddau amhrisiadwy, gan ledaenu ein negeseuon i gynulleidfa ehangach, a chwarae rhan ganolog mewn meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad dyfnach o’r Parc Cenedlaethol.

Mae Partneriaeth Tirwedd y Carneddau wedi cymryd camau arwyddocaol eto eleni. Mae gwaith archeolegol a chadwraeth treftadaeth ddiwylliannol trwy ymchwilio i enwau lleoedd wedi bod yn rhan annatod o’n hymdrechion. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatgelu cyfoeth hanesyddol y rhanbarth hwn, gan ddod â straeon hynafol yn fyw. Mae’r mentrau hyn nid yn unig yn cyfoethogi ein dealltwriaeth o Fynyddoedd y Carneddau ond hefyd yn atgyfnerthu ein hymroddiad i ddiogelu eu harwyddocâd naturiol a diwylliannol yn yr ardal.

**Deall ein cymunedau**

Mae cydweithio wedi bod yn gonglfaen i’n hymdrechion i fynd i’r afael â’r pwysau ar ymwelwyr ôl-COVID mewn ardaloedd fel Nant Gwynant. Gan weithio law yn llaw â’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Gwynedd, a chynghorwyr lleol, rydym wedi llunio cynllun lle cynhwysfawr. Mae’r cynllun hwn yn amlinellu dull cynaliadwy a chytbwys o reoli mewnlifiad ymwelwyr, gan gadw harddwch naturiol Nant Gwynant, a sicrhau lles trigolion ac ymwelwyr.

**CASGLIAD**

I gloi, mae adroddiad 2022-23 yn adlewyrchu ymrwymiad yr Awdurdod i warchod, gwella a hyrwyddo'r trysor naturiol sydd gennym mewn gofal i'w warchod mewn ffyrdd cyfrifol. Er gwaethaf yr heriau, mae ein hymdrechion cydweithredol wedi gweld canlyniadau effeithiol, ac yn cael eu profi mewn ymgyrchoedd llwyddiannus a'u perthnasu'n effeithiol gan ein cymunedau ac ymwelwyr.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, rydym yn barod i adeiladu ar y cyflawniadau hyn, gan barhau i feithrin twristiaeth gynaliadwy, diogelu amgylchedd cadwraethol y parc, a chreu dyfodol llewyrchus ar gyfer y cenedlaethau i ddod.

Mae ein diolch yn fawr i'n tîm ymroddedig o staff, aelodau, partneriaid, a'r cyhoedd am eu cefnogaeth barhaus a'u hymroddiad ar y cyd i amddiffyn harddwch ac arwyddocâd parhaol Eryri. Gyda'n gilydd, rydym am lunio dyfodol ble all hamdden a chadwraeth gyd-fyw'n gytûn o fewn y Parc Cenedlaethol.

# 2. AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

## 2.1. Parc Cenedlaethol Eryri

Dynodwyd Parc Cenedlaethol Eryri ym 1951 o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn ymestyn dros 213,200 hectar o gefn gwlad sy'n amrywio o fynyddoedd a gweundir i goetir ac arfordir. Mae tua 25,000 o bobl yn byw yn y Parc a chredir bod 10.5 miliwn yn ymweld â'r ardal bob blwyddyn.

Mae tua 59% o drigolion y Parc Cenedlaethol yn siarad Cymraeg.

## 2.2. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Sefydlwyd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 fel awdurdod lleol un pwrpas. Mae ganddo'r pwrpasau canlynol yn ôl diffiniad y Ddeddf:

- Gwarchod a gwella'r harddwch naturiol, y bywyd gwyllt a'r dreftadaeth ddiwylliannol; a
- Hyrwyddo cyfle i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc (Cenedlaethol).

Erys y cyfrifoldeb am gynllunio, cadwraeth, rheoli tir, mynediad a hamdden â'r Awdurdod, ond nid yw'n gyfrifol am ofalu am yr henoed, ysgolion, priffyrdd, gwagio biniau ysbwriel a dyletswyddau eraill Awdurdod Lleol.

Â'r Ddeddf yn ei blaen i ddweud bod yn rhaid i Awdurdod y Parc Cenedlaethol feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol er mwyn bodloni Pwrpasau'r Parciau Cenedlaethol ac i'r diben hwnnw bydd yn cydweithredu ag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus y mae eu swyddogaethau'n cynnwys hybu datblygiad economaidd a chymdeithasol o fewn ardal y Parc Cenedlaethol.

At hyn, o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer y Parc Cenedlaethol cyfan. Mae'r Awdurdod felly'n gyfrifol am gynhyrchu Cynllun Rheolaeth y Parc, y Cynllun Datblygu Lleol ac am benderfynu ceisiadau cynllunio.

# 3. GWELEDIGAETH

Mabwysiadodd yr Awdurdod weledigaeth ar gyfer y Parc ym mis Rhagfyr 2009 yn dilyn ymgynghoriad allanol helaeth â'r cyhoedd a'n rhanddeiliaid allweddol. Mae'r weledigaeth ar gyfer y Parc (yng Nghynllun Rheolaeth y Parc) fel a ganlyn:

*Erbyn 2035, bydd Eryri'n parhau i fod yn dirlun a warchodir, yn cael ei ddiogelu a'i wella i ddarparu amgylchedd naturiol gyfoethog ac amrywiol; yn rhoi buddiannau cymdeithasol, economaidd a lles yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.*

*Cyflenwir pwrpasau'r Parc Cenedlaethol trwy economi amrywiol a ffyniannus sydd wedi addasu i heriau newid yn yr hinsawdd, wedi ei seilio ar adnoddau naturiol – nodweddion y tirlun, cyfleoedd i ddysgu a mwynhau, treftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Gyda chymunedau dwyieithog bywiog a chynhwysol, bydd gweithio mewn partneriaeth wedi dangos y gellir cyflawni mwy trwy undod.*

*Bydd cymunedau wedi mabwysiadu datrysiadau arloesol mewn Byd sy'n newid - bydd economi carbon isel wedi cryfhau cysylltiad y preswylwyr â'r amgylchedd, gan roi gwell safon byw a sicrhau enw da Eryri fel Parc Cenedlaethol sy'n enwog yn rhyngwladol ac un o'r lleoedd i enaid gael llonydd.*

# 4. DATGANIAD LLESIANT A'R EGWYDDOR DATBLYGU CYNALIADWY

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ("y Ddeddf") yn rhoi pwrpas cyffredin cyfreithiol rwymol, sef y saith nod lles. Y saith nod lles yw fel a ganlyn:

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru Fwy Cyfartal | Cymru o Gymunedau Cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

I’r Awdurdod, dyletswydd graidd y Ddeddf (dyletswydd llesiant) yw bod yn rhaid i ni bennu amcanion llesiant sy'n gwneud y gorau o’n cyfraniad tuag at gyflawni'r nodau llesiant a nodir uchod. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i ni gymryd pob cam rhesymol i gwrdd â’r amcanion llesiant hynny yn unol â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy.

Dylai amcanion llesiant yr Awdurdod fod yn amcanion ar gyfer newid tymor hir. Byddwn yn cwrdd â'n hamcanion llesiant drwy gyfres o gamau a gall y camau gweithredu hyn fod yn rhai tymor byr, canolig neu hir ar gyfer newid, neu yn gyfuniad o'r rhain.

Mae amcanion llesiant yr Awdurdod wedi’u nodi yn Natganiad Llesiant yr Awdurdod 2021-26 ac maent hefyd wedi’u nodi yn Adran 6 y ddogfen hon. Maent yn cael eu gosod allan yn y fath fodd fel eu bod yn dangos yn glir sut mae pob un ohonynt yn berthnasol i bob un o'r saith nod llesiant. O dan yr amcanion llesiant unigol, ceir gyfres o gamau sydd angen eu cyflawni ac mae'r rhain unwaith eto wedi eu hasesu'n unigol o ran sut y maent yn berthnasol i bob un o'r saith nod llesiant. Bydd y camau sydd i'w cymryd fel y nodir uchod ac yn Adran 5 yn cael eu cefnogi gan Raglen Waith fanwl yr adroddir arni ac a archwilir gan yr Awdurdod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Yna gellir mesur y cynnydd yn ôl y Dangosyddion Perfformiad Lleol a fabwysiadwyd at y diben penodol hwnnw.

Mae cefnogi'r nodau llesiant yn ddyletswydd gyfochrog y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus ei chyflawni drwy ddatblygu cynaliadwy. Gweler isod fanylion pellach ynghylch yr hyn a olygir gan ddatblygu cynaliadwy.

Bydd angen gweithredu i gwrdd â’n hamcanion llesiant mewn modd cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu pum gofyniad allweddol, sef:

1. **Tymor Hir** - pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir, yn enwedig lle mae’r pethau a wneir i gwrdd ag anghenion tymor byr yn gallu cael effeithiau tymor hir niweidiol.
2. **Integreiddio** - sut y gall ein nodau llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, sut y gall y nodau llesiant effeithio ar ei gilydd neu ar nodau llesiant cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig lle y gallai camau a gymerwyd gennym i gyfrannu at gwrdd ag un amcan fod yn niweidiol o ran cwrdd ag un arall.
3. **Cynnwys** - pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, ac i sicrhau bod yr unigolion hynny yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru neu ardal ddaearyddol yr Awdurdod.
4. **Cydweithio** - Gallai gweithredu ar y cyd gydag unrhyw unigolyn (neu’r modd y mae gwahanol rannau o'r Awdurdod yn gweithredu gyda'i gilydd) gynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei nodau llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion.
5. **Atal** - i ystyried sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd, neu waethygu, gyfrannu at gwrdd â nodau llesiant yr Awdurdod, neu amcanion corff arall.

Ar ôl asesu gofynion datblygu cynaliadwy gydag amcanion llesiant yr Awdurdod, mae'n ymddangos bod datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'n hamcanion llesiant, a nodir manylion pellach isod:

**Tymor Hir:** Mae pob un o nodau llesiant yr Awdurdod yn cwmpasu dyheadau tymor hir yr Awdurdod, yn benodol sut y byddwn fel Awdurdod yn cynnal ein busnes yn y dyfodol ac ethos ein ffordd o feddwl. Mae hyn yn cynnwys mwy o gydweithio gyda'n rhanddeiliaid, mwy o ymwybyddiaeth o fanteision iechyd y Parc Cenedlaethol i bobl yn gyffredinol, heriau newid yn yr hinsawdd, grymuso ein cymunedau tra'n cydnabod bod rhaid i'r Awdurdod barhau i weithredu o fewn yr adnoddau ariannol llai sydd ar gael iddo.

**Integreiddio:** Mae rhai o'n hamcanion llesiant yn cael mwy o effaith ar nodau llesiant unigol nag eraill. Fel rhan o'r broses o fabwysiadu ein hamcanion llesiant, ystyriodd yr Awdurdod sut maent yn cwrdd â'r nodau llesiant, a nodir y rhain nid yn unig mewn perthynas â phob un o'r amcanion llesiant ond hefyd ar gyfer y camau gweithredu tymor byr a thymor canolig penodol sy'n gysylltiedig ar hyn o bryd â'n amcanion llesiant.

**Cynnwys:** Mae'r rhan fwyaf o'n hamcanion llesiant yn cynnwys pobl eraill. Trwy gyfathrebu'n effeithiol ac ehangu dealltwriaeth y cyhoedd ar bynciau mor amrywiol â'r heriau a wynebir gan Eryri wrth ymateb i newid hinsawdd, mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol hamdden tra'n gwella dealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol, disgwylir y bydd cyfathrebu o'r fath yn adlewyrchu poblogaeth Cymru. Yn yr un modd bydd sicrhau bod ein cymunedau'n gydnerth yn wyneb yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth gwrs yn ymwneud nid yn unig â phoblogaeth ardal ddaearyddol yr Awdurdod ond hefyd boblogaeth Cymru gyfan, gan mai dim ond trwy gynnwys pawb ym mhopeth rydym yn ei wneud y gallwn fod yn llwyddiannus yn y pen draw. Mae ein hamcan Ffyrdd Cydnerth o weithio, er nad yw'n cynnwys pobl eraill yn uniongyrchol, yw'r amcan sy'n sicrhau bod uchelgeisiau hirdymor yr Awdurdod yn parhau i fod yn gyraeddadwy.

**Cydweithio:** Fel Awdurdod Parc cymharol fach, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri bob amser wedi cydnabod y manteision sylweddol a geir drwy gydweithio ag eraill a thrwy weithio mewn partneriaeth barhaus. Erbyn hyn, mae'r ffordd hon o feddwl wedi treiddio i mewn i ffabrig yr Awdurdod a'i staff, ac nid yw'n syndod bod ein holl amcanion llesiant yn golygu cydweithio. Bydd ein holl amcanion llesiant yn cynnwys cymysgedd o gydweithio mewnol ac allanol.

**Atal:** Ni ddylai fod yn syndod bod atal yn elfen ganolog o amcanion llesiant yr Awdurdod, o ystyried ein pwrpasau statudol. Trwy gynnwys ein cymunedau ac eraill yng ngwaith yr Awdurdod; trwy gyfathrebu'n effeithiol o ran y cyfleoedd go iawn sydd gan y Parc Cenedlaethol i'w cynnig; drwy sicrhau ein bod yn cynnig amodau ffafriol ar gyfer adfer cynefinoedd; drwy gymryd y camau gweithredu hyn, a rhai eraill, yn awr, gallwn ddechrau ar y broses o addasu i heriau newid yn yr hinsawdd. Os nad yw adnoddau'n cael eu defnyddio'n awr i ymdrin â'r materion hyn, mae perygl gwirioneddol y bydd yr heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol yn anorchfygol.

Mae amcanion llesiant yr Awdurdod wedi'u nodi yn Adran 6. Mae cynnydd ar weithredu ei amcanion llesiant yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Awdurdod. Mae'r ddogfen hon, sef Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod, yn cael ei hystyried gan yr Awdurdod ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddod i ben ac mae'n rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

# 5. GOSOD AMCANION LLESIANT YR AWDURDOD

Yn 2018-19 cyfunodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ei amcanion gwella yn ei Gynllun Corfforaethol (datganiad llesiant) a chynhyrchodd un ddogfen. Roedd y dull hwn yn gyson ar draws y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol ac fe'i cefnogir gan ac fe'i archwiliwyd gan Archwilio Cymru.

Trwy'r adroddiad "Gwerthfawr a Chydnerth" ym mis Gorffennaf 2018, a oedd ar y pryd yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Tirweddau Dynodedig Cymru, roedd yn ofynnol i amcanion llesiant yr Awdurdod fodloni'r 10 thema drawsbynciol.

Mae hwn bellach wedi'i ddisodli gan Lythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru, ac asesir cynnydd o ran cyrraedd y targedau a nodir ynddo yn rheolaidd fel rhan o'r adroddiadau ar gynnydd y Rhaglen Waith Gorfforaethol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ogystal ag i'r Awdurdod yn flynyddol.

Roedd datgymhwysiad Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn caniatáu i'r Awdurdod fabwysiadu amcanion tymor hwy a oedd yn hwyluso gwell alirhwng gwaith yr Awdurdod a Chynllun Rheoli'r Parc, y Cynllun Datblygu Lleol, mecanweithiau adrodd a sefydlu amcanion realistig a CAMPUS ar gyfer rhaglenni gwaith blynyddol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod gyflawni datblygu cynaliadwy ac wrth wneud hynny mae'n rhaid iddo osod a chyhoeddi amcanion ("amcanion llesiant") sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'i gyfraniad tuag at gyflawni pob un o'r nodau llesiant, a chymryd pob cam rhesymol (wrth arfer ei swyddogaethau) er mwyn cyflawni'r amcanion hynny.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod adlewyrchu'r pwrpasau a'r dyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 1995.

Yn 2019 cytunodd yr Aelodau ar yr angen i adolygu amcanion yr Awdurdod i sicrhau eu bod yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd yn well â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y dogfennau a nodir uchod ac yn darparu ar gyfer blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer tirweddau dynodedig Cymru.

Mabwysiadwyd amserlen gan yr Awdurdod i fabwysiadu amcanion llesiant a strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2021-26.

Cynhaliwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu wedi’u hwyluso gan Aelodau a/neu staff drwy gydol 2020 pryd y nodwyd meysydd allweddol. Daeth tair prif thema i'r amlwg, dwy yn wynebu allan ac un yn wynebu i mewn. Yn unol â’r tair prif thema, datblygwyd pum is-thema arall er mwyn canolbwyntio ar:

**AMGYLCHEDDAU CYDNERTH:**
1. Gwella rheolaeth hamdden ac unrhyw effeithiau negyddol hamdden,
2. Ymateb i heriau newid hinsawdd,
3. Gwella rheolaeth a dealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol,
4. Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios / amgylchiadau perthnasol i reoli tir ar ôl Brexit, a
5. Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur.

**CYMUNEDAU CYDNERTH:**
1. Cynnal a chynyddu ansawdd bywyd trigolion,
2. Cefnogi pobl ifanc,
3. Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth at gymunedau lleol,
4. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol, a
5. Datblygu economi leol sy'n cefnogi'r dynodiad a'r rheolaeth o Eryri fel Parc Cenedlaethol.

**FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO:**
1. Datblygu gweithlu medrus,
2. Datblygu a hyrwyddo arfer gorau,
3. Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol,
4. Moderneiddio trefniadau llywodraethu, a
5. Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol i waith y Parc Cenedlaethol.

Yn ystod haf 2020, cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad anffurfiol cychwynnol gyda rhanddeiliaid i bennu a oedd y themâu cychwynnol yn adlewyrchu’r amcanion a gweledigaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol tra’n defnyddio’r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd fwyaf cynaliadwy. Roedd yr adborth yn cadarnhau'r themâu ac yn cynnig awgrymiadau ar gyfer newidiadau a gwelliannau pellach.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ddiwedd 2020 cyn sesiynau Aelodau/Staff pellach i drafod, ystyried a datblygu amcanion llesiant drafft terfynol a Rhaglen Waith Gorfforaethol.

Newidiodd sefyllfa'r Awdurdod fel pob sector arall yn ddramatig oherwydd yr angen i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn erbyn pandemig Covid-19 a'r gofynion i ymdrin â'r bygythiad i gymdeithas. Yn unol â hynny, roedd hyn yn golygu bod angen newidiadau i Flaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod ac i rai elfennau o'r amcanion llesiant eu hunain er mwyn galluogi'r Awdurdod i ganolbwyntio ymdrechion ac adnoddau ble mae eu hangen.

Gellir gwneud sylwadau ar hwn neu fersiynau ar gyfer y dyfodol o'r Adroddiad Blynyddol trwy anfon e-bost at iwan.jones@eryri.llyw.cymru neu yn ysgrifenedig at Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6LF.

Mae'r Amcanion Llesiant a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod wedi'u nodi'n llawn yn Adran 6 y ddogfen hon ynghyd â chrynodeb o werthusiad o gynnydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

# 6. AMCANION LLESIANT YR AWDURDOD GYDA GWERTHUSIAD CRYNO O'R CYNNYDD A WNAED HYD YMA

| AMGYLCHEDDAU CYDNERTH | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Byddwn yn cyflawni hyn drwy:** | | | | | | | |
| **AC1**<br>Wella rheolaeth hamdden ac unrhyw effeithiau negyddol hamdden | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| **AC2**<br>Ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| **AC3**<br>Wella rheolaeth a dealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **AC4**<br>Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios rheoli tir ar ôl Brexit | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **AC5**<br>Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur | | ✓ | ✓ | | | | ✓ |

## AC1 – Gwella rheolaeth hamdden ac unrhyw effeithiau negyddol hamdden

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:**

| **Monitro nifer yr ymwelwyr trwy ddefnyddio teclynnau cyfri pobl er mwyn sefydlu effaith defnyddwyr ar draws y Parc Cenedlaethol.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)***<br><br>**AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)***<br><br>**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)*** | Dechreuodd y gwaith o gasglu data ar gyfer 2022 o gownteri ar draws y Parc.<br>Rhai problemau a gafwyd gyda gwneuthurwr batris ar gyfer y cownteri a ddefnyddiwn, gydag oedi wrth atgyweirio a dychwelyd. Monitro ar hyn o bryd i weld a yw'r gwasanaeth yn gwella. | Bydd data'n cael ei fonitro'n agos er mwyn nodi / cadw llygad ar unrhyw dueddiadau. |

| **Ymgyrch Negeseuon Tymor 2022 i godi ymwybyddiaeth o'r Parc Cenedalethol a'r Rinweddau Arbennig, dylanwadu ar ymddygiad cadarnhaol a mynd i'r afael â gwersylla anghyfreithlon – fe'i gweithredwyd ac adroddwyd ar y canlyniadau/cyrhaeddiad.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)***<br><br>**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***<br><br>**AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwy gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3)*** | Cwblhawyd ymgyrch 2022 – adborth cychwynnol da iawn a ffigurau yn edrych yn addawol iawn.<br>Cyfarfodydd rheolaidd gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â heriau cartrefi modur.<br>Mae gwaith yn parhau yn 2023 i fynd i'r afael â'r mater ac mae wedi'i integreiddio i Gynllun Tymor 2023. Parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y mesurau a gymerwyd gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o ran mannau parcio a chapasiti y tu allan i ffiniau'r Parc er mwyn helpu i leddfu pwysau.<br>Lansio cynllun di-blastig Yr Wyddfa ac mae'r gwaith i godi | Monitro effeithiolrwydd cynllun peilot Gwynedd a pharhau i drafod beth ellir ei wneud i gwrdd â heriau'r dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | ymwybyddiaeth yn mynd rhagddo'n dda. | |

| **Gwell darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghanolfan Groeso Betws y Coed trwy uwchraddio'r cyfleusterau i ymwelwyr.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***<br><br>**AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3)*** | Mae profiad rhith-realiti Yr Wyddfa bellach ar agor. Blychau tywod i'w cwblhau erbyn dechrau mis Mawrth, meinciau a phlanhigion yn cael eu hadeiladu'n fewnol ar hyn o bryd.<br>Mae problem weledol gyda'r arwyddion allanol wedi golygu bod angen ailfeddwl am y dyluniad. Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Pensaer a'r Cynllunwyr ynghylch goblygiadau ar y caniatâd cynllunio. | Prosiect wedi'i oedi ychydig ond bron wedi'i gwblhau |

| **Nodi a meintioli gwaith mynediad i liniaru effeithiau pwysau pobl.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC1:** Byddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1)***<br><br>**AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)***<br><br>**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)*** | Mae gwaith mynediad ar raddfa fach yn cael ei nodi a'i reoli gan y Wardeniaid Ardal. Mae gwaith bach i ganolig yn cael ei arwain gan Wardeniaid Ardal gyda chefnogaeth Uwch Wardeniaid. Mae gwaith yn cael ei drafod a'i gadarnhau yn eu cynllun gwaith a/neu gynlluniau lleoedd ardal. Mae gwaith mynediad mwy yn cael ei asesu a'i drafod mewn 'Cyfarfodydd Blaenoriaethu Prosiectau Mynediad' sy'n cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth Wardeiniaid, Uwch Wardeniaid, Rheolwr Lles a Mynediad a Swyddog Prosiect Mynediad. | Bydd gwaith yn parhau hyd y gellir rhagweld. |

| Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau troed yn Eryri. | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC1:** Byddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1)***<br><br>**AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)***<br><br>**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)*** | Ymchwil wedi'i gwblhau. Mae cais am wybodaeth wedi'i wneud i Barciau Cenedlaethol y DU. | Gwaith i'w symud ymlaen dros yr ychydig fisoedd nesaf. |

| Cynhyrchu canllawiau ar gyfer gwneud gwaith llwybrau mynediad yn Eryri. | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC1:** Byddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1)***<br><br>**AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)***<br><br>**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)*** | Cynhyrchwyd y drafft – angen adolygu a chyflwyno drafft i'r tîm rheoli i gael sylwadau cychwynnol ddechrau 2023. | Gwaith heb ei gwblhau yn 2022-23 ond bydd yn symud ymlaen yn 2023-24. |

| **Sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd pan fo angen.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)***<br><br>**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)*** | Gwaith yn parhau. Mae asedau ychwanegol ar ffurf Wardeniaid Tymhorol wedi gwella capasiti. Proses o uwchraddio rhaglen gyfrifiadurol ar gyfer rheoli ac adolygu llwybrau ar y gweill. | Gweithredu parhaus. |

| **Wardeniaid Ardal i weithio gyda chymunedau a phartneriaid i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddarparu ystod o lwybrau a hyrwyddir ar gyfer galluoedd amrywiol.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)***<br><br>**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)*** | Gwaith yn parhau. Mae arian LIC Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLIC) wedi cefnogi cynnwys mwy o waith llwybrau troed yng nghynlluniau ardal y wardeniaid. | Gweithredu parhaus. |

| **Gweithio ar draws yr Awdurdod i integreiddio rhaglenni gwaith a datblygu Cynlluniau Ardal.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)***<br><br>**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithia negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***<br><br>**AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, | Mae gwaith yn parhau i ddatblygu a gweithredu gwaith cydweithredol ar draws yr Awdurdod. Yn ogystal â'r gwaith TCLIC uchod mae aelodau o staff y gwasanaeth Wardeinio a Mynediad wedi cynorthwyo ar nifer o brosiectau eraill megis prosiectau Cynllun Rheoli Cynaliadwy. | I'w symud ymlaen yn 2023-24. |

| | | |
|---|---|---|
| gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbenn newid ymddygiad ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3)*** | | |

| **Sicrhau cyllid a recriwtio swyddog i ddatblygu prosiect Wyddfa Di-blastig.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)***<br><br>**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***<br><br>**AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3)*** | Cyllid wedi'i sicrhau a swyddog wedi'i recriwtio. | Cwblhawyd. |

## AC2 – Ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:**

| **Sicrhau gweithrediad y polisïau CDLl cyfredol sy'n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)***<br><br>**AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)***<br><br>**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)*** | Mae llawer o fesurau lliniaru newid yn yr hinsawdd wedi'u gwreiddio yn y CDLl, trwy bolisïau sy'n ceisio lleihau dibyniaeth ar geir preifat, trwy ganolbwyntio datblygiad yn yr aneddiadau mwy (a thrwy hynny leihau dibyniaeth ar geir preifat), a chaniatáu datblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach. Yn yr ystyr hwnnw mae'r CDLl yn cael ei weithredu'n fras fel y bwriadwyd. Er bod polisi 'newid hinsawdd' penodol yn y CDLl nid yw'n cael ei ddefnyddio rhyw lawer wrth wneud penderfyniadau | I'w symud ymlaen ymhellach yn 2023-24.. |

| | | |
|---|---|---|
| | datblygu. Ystyrir felly bod angen adolygu'r polisi Newid yn yr Hinsawdd a bod angen canllawiau manwl pellach i roi cyfeiriad clir i fynd ati i leihau carbon a bod yn fwy rhagweithiol wrth liniaru ac addasu i effeithiau newid annymunol yn ogystal â chymryd camau gweithredol i gynyddu dal a storio carbon systemau naturiol gan gynnwys coetiroedd, mawndiroedd a phriddoedd carbon. | |

| **Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl troed carbon adeiladau APCE i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd (CRA) (i'w fabwysiadu o Ebrill 2022) ac yn cyd-fynd â thargedau Ffyniant i Bawb Cymru - Ystad Gyhoeddus Carbon Isel.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)*** | Cyfarfu'r Is-grŵp Asedau yn ystod hydref 2022 ac ystyriodd ddata ar gyfer y safleoedd lle gwneir y defnydd mwyaf o ynni er mwyn blaenoriaethu effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy posibl ar y safle. Camau i'w cymryd i baratoi cynllun cynnal a chadw cylchol i hysbysu'r grŵp yn well ar rwymedigaethau hirdymor yn sgil pwysau ariannol pellach i alluogi trafodaeth ar adolygu'r portffolio.<br>Gwaith yn mynd rhagddo i baratoi cynllun cynnal a chadw ar gyfer trafodaeth Is-grŵp yn y dyfodol. | Parhau gyda'r gwaith yn y flwyddyn ariannol nesaf. |

| **Datblygu Cynllun Gweithredu i APCE fod yn garbon niwtral erbyn 2030.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)***<br><br>**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)*** | Derbyniwyd yr adroddiad terfynol gan Aquetera. Cyfarfu Grŵp Tasg a Gorffen Cyfrif Carbon i drafod canlyniadau'r adroddiad a Chynllun Gweithredu dilynol. Cytunodd y Grŵp ar newidiadau i'r Cynllun Gweithredu i swyddogion eu datblygu fel sail ar gyfer datblygu'r themâu | Datblygu Strategaeth Garbon Gorfforaethol. |

| | | |
|---|---|---|
| | a nodwyd yn Strategaeth Garbon Gorfforaethol (Drafft) a gyflwynir i'r Grŵp Tasg a Gorffen ym mis Mai. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda. | |

| **Comisiynu adroddiad i nodi sut y gall yr Awdurdod gynorthwyo i sicrhau bod ardal y Parc Cenedlaethol yn garbon niwtral erbyn 2050 i gynnwys cyfeirnod penodol i reoli tir a gweithio tu hwnt i eiddo'r Awdurdod.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)***<br><br>**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)*** | Derbyniwyd yr adroddiad terfynol gan Small World Consultancy. Cyfarfu Grŵp Tasg a Gorffen Cyfrif Carbon i drafod yr adroddiad a lluniwyd fersiwn gryno gan swyddogion. Mae'r crynodeb wedi'i drafod a'i gytuno gan y Grŵp Tasg a Gorffen.<br>Mae Gweinidog Llywodraeth Cymru wedi gofyn i adroddiad canlyniadau gael ei gomisiynu fel dogfen strategol ar draws yr 8 Tirwedd Dynodedig er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl. | Cwblhawyd |

| **Cefnogi partneriaeth strategol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro ar Adfer Natur a Chadw Carbon yn Nhirweddau Dynodedig Cymru a chynnal swydd yr arweinydd strategol.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)***<br><br>**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)*** | Swyddog Arweiniol Strategol yn ei swydd yn arwain ar Adfer Natur ac Atafaelu Carbon. Bydd ei gwaith yn canolbwyntio ar yr holl gynefinoedd a choetir sydd heb eu gwella a'r fioamrywiaeth sydd ynddynt gan gynnwys ymledwyr, a chyfleoedd i leihau carbon. | Gwaith i'w symud ymlaen yn 2023-24. |

## AC3 – Gwella rheolaeth a dealltwriaeth o’n treftadaeth ddiwylliannol

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni’r amcan gwella pan:**

| **Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol APCE.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i’w Cymryd |
| **AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***<br><br>**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol ***(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3)*** | Drafft cyntaf wedi'i gwblhau. Adroddiad i’w gyflwyno i’r Tîm Rheoli yn Haf 2023 a Gweithgor Aelodau yn Hydref 2023. | Gwaith i'w gwblhau erbyn Gaeaf 2023. |

| **Sicrhau fod Rhaglen Waith Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ar gyfer 20212/23 wedi'i chwblhau mewn pryd i sicrhau bod y Prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn 2025.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i’w Cymryd |
| **AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***<br><br>**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol ***(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3)*** | Mae prosiectau'n mynd rhagddynt yn dda, yn unol â'r amserlen ddiwygiedig. Mae nifer fach o brosiectau yn profi oedi ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda phartneriaid allweddol ac arweinwyr prosiectau i ddatrys problemau sy'n achosi oedi. | Parhau i fonitro cynnydd o ran cwblhau erbyn 2025. |

| **Adolygu cynnydd wrth gyflawni Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau yn barod ar gyfer cwblhau'r cynllun erbyn mis Rhagfyr 2023.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***<br><br>**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol ***(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3)*** | Mae'r Cynllun wedi cael estyniad o 12 mis tan 31.12.2023 oherwydd effaith pandemig Covid 19 ar y Cynllun. Mae costau uwch (deunyddiau a chwyddiant) yn gosod her i brosiectau o fewn y Cynllun. Mae cynnydd da yn cael ei wneud mewn mannau eraill ac mae'r rhan fwyaf o brosiectau'r Cynllun bellach wedi'u cwblhau. Mae cyfathrebu rheolaidd yn digwydd gyda chyllidwyr ac mae'r prosiect ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2023. Mae'r gwaith ar adeilad blaenoriaeth uchel Wilkins wedi dechrau ac yn mynd rhagddo'n dda gydag adborth cadarnhaol wedi'i dderbyn gan y gymuned hyd yn hyn. Mae'r Rheolwr Prosiect yn gweithio gyda pherchnogion adeiladau amlwg eraill i ystyried dichonoldeb ariannu prosiectau eraill ar raddfa lai cyn i'r cynllun ddod i ben. | Mae'r Prosiect yn parhau yn foddhaol. Parhau i gysylltu â'r Gronfa Dreftadaeth i ddatrys unrhyw faterion sy'n weddill. |

| **Datblygu prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy a fydd yn galluogi'r Awdurdod i wneud cais am arian allanol maes o law.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***<br><br>**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol ***(yn unol*** | Mae bylchau wedi'u nodi mewn ymgysylltu â'r gymuned, sy'n hanfodol cyn cyflwyno ceisiadau am gyllid. Mae prosiect ysgol celf treftadaeth gydag Ysgol Dyffryn Ardudwy wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno'n llwyddiannus mewn cydweithrediad â beirdd, artistiaid gweledol, ffilm a pherfformiad, a swyddogion gwasanaeth Treftadaeth Ddiwylliannol. Ymgynghori cymunedol yn parhau. Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno ceisiadau am arian wedi'i | Parhau i weithredu'r prosiect. |

| | | |
|---|---|---|
| ***â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3)*** | gohirio ond rhagwelir y bydd yn digwydd yn 2023/24. | |

| **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***<br><br>**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol ***(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3)*** | Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar wahanol rannau o'r Cynllun Gweithredu, gan gynnwys dehongli, cadwraeth, cynllunio a'r grŵp llywio. Mae dehongliad yn cael ei ddrafftio a bydd yn cael ei osod yng ngwanwyn 2023. | Gwaith yn mynd rhagddo. |

| **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith barhaus y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (GAH) dan arweiniad Cadw a'i weithgorau cysylltiedig, gan gynnwys Llesiant, Lliniaru Newid Hinsawdd, mawndiroedd a Threftadaeth Leol.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***<br><br>**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol ***(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3)*** | Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar bob elfen o'r Grŵp Amgylcheddol Hanesyddol. | Monitro cynnydd. |

| Cynnal a datblygu'r Ysgwrn fel amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol o fri cenedlaethol gan gynnwys cyflwyno'r prosiect arddangos "Geiriau Diflanedig" ar y safle mewn byd ôl-Covid. | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***<br><br>**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd *hanesyddol* ***(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3)*** | Mae cyllid Haf o Hwyl a ddarperir gan Lywodraeth Cymru wedi'i sicrhau er mwyn ariannu rhaglen lawn o weithgareddau i'r teulu ar gyfer Gorffennaf-Medi, 2022. Mae Geiriau Diflanedig yn dod yn ei flaen yn dda. Mae cydweithwyr Amgueddfa Cymru wedi ymweld i asesu addasrwydd ar gyfer arddangos gwrthrychau o'u casgliad. Mae'r rhaglen weithgareddau a digwyddiadau yn cael ei datblygu. Arian Artfund wedi'i sicrhau ar gyfer preswyliad celf ysgol, gweithdy barddoniaeth ac adnodd addysg i gyd-fynd â'r arddangosfa. Lansio tudalen we a chyhoeddi datganiad i'r wasg. Bwriedir agor Geiriau Diflanedig ym mis Mehefin 2023. | Bydd yr Ysgwrn yn cael ei fonitro'n barhaus yn ystod 20234-24. |

| Datblygu Cynllun Gwerthuso Ardaloedd Cadwraeth a Chynllun Rheoli/Cynllun Cyflawni fel llinell sylfaen o wybodaeth ar gyfer datblygu prosiectau cyfalaf posibl yn y blynyddoedd dilynol. | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***<br><br>**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol ***(yn unol*** | Roedd y dogfennau Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli unigol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 30ain o Hydref a 11eg o Dachwedd 2022. Derbyniwyd nifer o sylwadau gan nifer o ymatebwyr. Y bwriad yw gwirio'r newidiadau gyda'r Cynghorau Cymuned perthnasol cyn cyflwyno'r dogfennau i'r Aelodau i'w mabwysiadu'n derfynol o fewn y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad. Gwaith arall sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r gwaith hwn yn ystod Gwanwyn 2023 yw pedwar digwyddiad galw heibio ar draws y Parc Cenedlaethol gydag | Symud ymlaen i'r cam nesaf cyn gynted â phosibl. |

| | | |
|---|---|---|
| ***â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3*)** | arbenigwyr ym maes Cadwraeth Adeiladau yn hyrwyddo'r prosiect ac yn hyrwyddo gwybodaeth am wahanol ddulliau addas a chynaliadwy o wella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau traddodiadol o fewn Ardaloedd Cadwraeth. Yn ogystal, roedd cynllun grant ar gael i gynorthwyo gyda gwelliannau effeithlonrwydd ynni a / neu uwchraddio thermol eiddo cyhoeddus, cymunedol a masnachol o fewn Ardaloedd Cadwraeth ddynodedig y Parc Cenedlaethol, megis Eglwysi / Capeli, Neuaddau Cymunedol, Llyfrgelloedd, Tafarndai Cymunedol, a Siopau Pentref. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau oedd 3ydd o Fawrth 2023 a phenderfynwyd ar y cais llwyddiannus. | |

## AC4 – Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios rheoli tir ar ôl Brexit

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:**

| **Cynorthwyo i ddatblygu a dylunio cynigion rheoli tir yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod Eryri yn elwa o gynigion yn y dyfodol a bod nodau strategol Cynllun Eryri yn cael eu hadlewyrchu yng nghynigion y dyfodol.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)***<br><br>**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol ***(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)*** | Mae ymgysylltu ar y gweill cymaint ag y mae LIC yn ei ganiatáu, proses braidd yn gyfyngedig ar gyd-ddylunio yn symud ymlaen gan Lywodraeth Cymru ar ddatblygu rhaglen. Mae Tirweddau Dynodedig wedi cysylltu â LIC i hyrwyddo mwy o ddeialog a chynnig cymorth i ddatblygu a dylunio cynigion rheoli tir yn y dyfodol. | Aros am gynnydd ar y mater gan Lywodraeth Cymru. |

| **Cynnal perthynas waith agos gyda'r sector tir i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth o oblygiadau parhaus Brexit ar reoli tir.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)***<br><br>**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)***<br><br>**AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac hangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol anwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***<br><br>**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol ***(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)*** | Mae'r ffocws bellach wedi symud ymlaen o Brexit i'r pecynnau cymorth amaethyddol newydd. Gwaith parhaus. | Parhaus |

## AC5 – Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:**

| **Datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ddealltwriaeth a chynnwys e.e. SoNaRR (adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol), Adroddiad Cyflwr y Parc Cenedlaethol ayb. i hysbysu'r blaenoriaethau ar gyfer adfer natur yn Eryri.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac hangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol anwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***<br><br>**AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau | Mae cyllid wedi'i gadarnhau gan LlC ar waith bioamrywiaeth am gyfnod o ddwy flynedd, mae'r broses recriwtio a phenodiad wedi'i wneud gyda swyddog yn dod i'w swydd ym mis Gorffennaf 2023. Gobeithio y bydd datblygu'r capasiti hwn yn caniatáu i gynnydd gael ei wneud. | Mae angen datblygu'r Cynllun Gweithredu fel bod gennym well dealltwriaeth o'r her sylweddol iawn hon. |

| | | |
|---|---|---|
| cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A2.2)***<br><br>**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol ***(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)*** | | |

| **Parhau i ddarparu gwelliant bioamrywiaeth trwy'r broses rheoli datblygu a sicrhau cydymffurfiad ag unrhyw ganllawiau sydd ar ddod a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac hangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol anwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A2.1)***<br><br>**AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A2.2)***<br><br>**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol ***(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)*** | Mae gwella bioamrywiaeth drwy'r broses rheoli datblygu yn parhau i gael ei gyflawni. Dal i aros am ganllawiau cyhoeddedig Llywodraeth Cymru a newidiadau posibl i Bolisi Cynllunio Cymru yn ymwneud â budd net i fioamrywiaeth a chadernid ecosystemau sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. | Tra bod gwaith yn parhau ar lefel Awdurdod, disgwylir canllawiau Llywodraeth Cymru a all gyfyngu ar gynnydd. |

| **Sicrhau bod CCA ar fioamrywiaeth yn cael ei gynhyrchu erbyn 2023 i gefnogi'r broses Rheoli Datblygu.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac hangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol anwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A2.1)***<br><br>**AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau | Bydd hyn yn cael ei symud ymlaen unwaith y bydd canllawiau Llywodraeth Cymru ar wella bioamrywiaeth wedi'u cyhoeddi. | Aros am ganllawiau Llywodraeth Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2)***<br><br>**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol ***(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)*** | | |

| **Parhau i ddarparu prosiectau cymeradwy sy'n mynd i'r afael â nodau Cynllun Eryri (e.e. CTL Carneddau, LIFE Coedwig Law Geltaidd, Cyforgorsydd, Corsydd Crynedig, prosiect y Gylfinir) a datblygu rhaglenni pellach.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***<br><br>**AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2)***<br><br>**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol ***(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)*** | Mae Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol yn disgwyl cyllid prosiect ychwanegol wedi'i sicrhau drwy 3 raglen Lleoedd Cynaliadwy Tirweddau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, Prosiectau'r Grid Cenedlaethol a Rheoli Llifogydd Naturiol.<br>Mae prosiectau'r Grid Cenedlaethol wedi'u rhyddhau o'r diwedd i ddechrau. Dechreuodd prosiect Partneriaeth y Parc Cenedlaethol ym mis Ionawr. Mae'r holl brosiectau eraill yn rhedeg ac ar darged. Adroddiad diweddaru chwe misol ar yr holl brosiectau wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Tachwedd 2022. | Mae angen monitro'r prosiectau hyn yn ofalus. Gall trosiant staff fod yn risg i brosiectau o'r fath ac mae angen i'r Awdurdod fod yn ymwybodol o hynny. |

| **Symud ymlaen ag arolwg ledled y Parc Cenedlaethol o safleoedd Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS).** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)*** | Mae gwaith ar y gweill. Mae cyllid Blwyddyn 1 wedi'i ymrwymo'n llawn. | Sicrhawyd cyllid ar gyfer arolwg ac adferiad 3 blynedd arall. |

| | | |
|---|---|---|
| **AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2)***<br><br>**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol ***(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)*** | | |

| **CYMUNEDAU CYDNERTH** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Byddwn yn cyflawni hyn drwy:** | | | | | | | |
| **CC1**<br>Cynnal a gwella ansawdd bywyd preswylwyr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **CC2**<br>Cefnogi pobl ifanc | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **CC3**<br>Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth i gymunedau lleol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **CC4**<br>Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **CC5**<br>Datblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad a rheolaeth Eryri fel Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## CC1 – Cynnal a gwella ansawdd bywyd preswylwyr

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:**

| **Datblygu adnodd ar-lein fel rhan o'r wefan newydd sy'n ymwneud â gweithgareddau a llwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)***<br><br>**CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)*** | Mae holl lwybrau'r awdurdod a hyrwyddir ar y wefan newydd. Y cam nesaf yw codi ymwybyddiaeth o'r 'adnodd' i bartneriaid a'r bwrdd iechyd. Adnoddau a fideos ychwanegol yn cael eu datblygu ar gyfer defnyddwyr anabl. | Gwaith wedi'i gwblhau a gellir ei archwilio ar y wefan. |

| **Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr APCE ac mewn cydweithrediad â phartneriaid, parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)*** | Nifer sylweddol o gyfleoedd newydd a pharhaus yn cael eu datblygu/cefnogi gan Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant.<br>Amcangyfrif o werth gwirfoddoli i'r Awdurdod hyd yn hyn yn 2022 yw £52,800 (cyfrif gwerth economaidd gwirfoddolwyr gan ddefnyddio cyflog byw y DU o £9.50).<br>Adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i'r Aelodau yn fuan a fydd yn amlinellu'r cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf. | Cwblhawyd. |

| **Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i bobl anabl.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)*** | Prosiect newydd yn dechrau ym mis Tachwedd 2022 yn gweithio gyda "Pobl i Bobl" i ddod â gwesteion o Syria, Afghanistan ac Wcrain i mewn i'r Parc Cenedlaethol | Cwblhawyd. |

| | | |
|---|---|---|
| | ar gyfer teithiau cerdded tywys a gweithgareddau cadwraeth hwyliog.<br>Canlyniadau ystadegau gwirfoddoli 2022: (Darparwyd cyfleoedd i wirfoddoli)<br>Plant (grwpiau ysgol): 132<br>Pobl ifanc (14-24): 87<br>25 - 50:74<br>50+: 115 | |

| **Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLI.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC1, 2, 4:** Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1***) | Trafodaethau rheolaidd gyda'r ddau Awdurdod Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i sicrhau bod tai fforddiadwy'n cael eu darparu lle bo angen.<br>Mae trafodaethau'n parhau gyda phartneriaid i ariannu swydd Swyddog Tai a Arweinir gan y Gymuned newydd.<br>Ymchwil yn cael ei wneud i asesu effaith prisiau tai cynyddol ac ail gartrefi/llety gwyliau. Bydd ymchwil yn llywio'r defnydd o gyfeiriad Erthygl 4 a llunio polisi ar gyfer adolygiad nesaf CDLIE.<br>Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn bartneriaid i Beilot Dwyfor, sy'n cwmpasu rhan o Ardal y Parc Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cynllun peilot yn ardal Dwyfor i dreialu a monitro mentrau newydd i fynd i'r afael â mater ail gartrefi a fforddiadwyedd.<br>Lansiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gynllun prynwyr tro cyntaf i ddod ag eiddo gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd. Defnyddiodd y fenter hon arian 106 APC Eryri. | Parhaus. |

| Parhau i ddarparu cyllid a mesurau i gefnogi cymunedau ac economïau lleol trwy Gronfa Gymunedol Eryri, yn enwedig lle mae'r rhain yn cael eu harwain gan y cymunedau eu hunain - mewn seilwaith gwyrdd, gwell mynediad at hamdden er mwyn iechyd a lles, cynhyrchu ynni, gwelliannau amgylcheddol lleol megis sbwriel a rheoli gwastraff, datblygu cymunedol a'r iaith Gymraeg. | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)*** | Cyllid wedi'i sicrhau drwy gronfa Lleoedd Cynaliadwy Tirweddau Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru. Swyddog Ymgysylltu Cymunedol yn dechrau ar y 27ain o Fawrth 2023 a bydd yn dechrau gweithredu'r gwaith hwn yn unol â hynny. | Gwaith parhaus. |

## CC2 – Cefnogi pobl ifanc

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:**

| Paratoi Maniffesto Ieuenctid drafft i'w drafod a'i gymeradwyo gan yr Aelodau. | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***) | Cyfarfod grŵp tasg a gorffen wedi ei gynnal. Mae modd datblygu a mabwysiadu Maniffesto Ieuenctid Europarc fel maniffesto'r Parc Cenedlaethol ond penderfynwyd ei ddefnyddio fel sail i ddatblygu Maniffesto sy'n unigryw i Eryri. Cytunwyd y dylai ieuenctid fod yn rhan o'r broses ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu pwyllgor ieuenctid. | Bydd y gwaith yn parhau yn 2023-24. |

| Ail ddechrau'r cynllun Ceidwaid Ifanc a mabwysiadu cynllun ar gyfer De'r Parc. | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***) | Mae Ceidwaid Ifanc Gogledd y Parc wedi bod yn llwyddiant a bydd yn parhau tan fis Mawrth 2023. Bydd y cynllun yn ailddechrau Mai 2023 gyda mynychwyr newydd. Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda phartneriaid posibl ar gyfer datblygu'r cynllun i'r De o'r Parc, ac mae gwaith wedi mynd rhagddo i ailgychwyn y cynllun. Gwahoddir ceisiadau yn fuan. | Bydd y gwaith yn parhau yn 2023-24. |

## CC3 – Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth i gymunedau lleol

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:**

| **Comisiynu a hyrwyddo Adroddiad Cynaliadwyedd twristiaeth STEAM blynyddol er mwyn mesur effeithiau twristiaeth a darparu argymhellion yn seiliedig ar yr adroddiad ar sut y gellir lliniaru'r effeithiau yn Eryri.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***<br><br>**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach **(*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)*** | Gweithio gyda Chyngor Gwynedd i ddatblygu hyn fel rhan o'r strategaeth ar y cyd. | Gwaith yn parhau. |

| **Datblygu cyfleoedd i annog trafnidiaeth mwy gwyrdd trwy'r canlynol: Dilyn yr argymhellion o'r adolygiad o drafnidiaeth a pharcio yn ardaloedd Yr Wyddfa ac Ogwen.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***<br><br>**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach **(*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)*** | Gyda chymorth Trafnidiaeth Cymru yn 2022-3 mae'r prosiectau canlynol o Adolygiad Martin Higgit yn cael eu datblygu:<br>SHERPA'R WYDDFA - gwasanaeth bws gwell yn cynnig mwy o wasanaethau a gwell integreiddio wedi'i lansio ddydd Gwener, 8fed o Orffennaf.<br>STRATEGAETH ARWYDDION – gweithio gyda TrC i ddatblygu strategaeth arwyddion i arwain gyrwyr yn effeithiol i ardaloedd Yr Wyddfa ac Ogwen, a fydd hefyd yn defnyddio data o synwyryddion parcio Smart.<br>TEITHIO ACTIF WELTAG 1&2 - Dau Lwybr Teithio Llesol 1) Betws-y-Coed i Lanrwst 2) Bethesda - Zip World bellach wedi symud ymlaen i'r cam | Parhau i weithredu a monitro cynnydd/problemau. |

| | | |
|---|---|---|
| | dichonoldeb mewn ymgynghoriad ag Awdurdodau Lleol a thirfeddianwyr lleol.<br>PARCIO CAMPUS - Cam olaf y prosiect hwn yw integreiddio'r wybodaeth a gasglwyd gan y synwyryddion i wefan yr Awdurdod mewn ffordd hawdd ei defnyddio.<br>LLYWODRAETHU - Mae grŵp cyflawni wedi'i sefydlu ar gyfer arweiniad strategol ar y strategaeth gyffredinol rhwng APCE, TrC, Cynghorau Gwynedd a Chonwy, gyda'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Ymgysylltu yn cynrychioli'r Awdurdod ar y grŵp. | |

| **Gweithredu model Twristiaeth Gynaliadwy ar draws y rhanbarth.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***<br><br>**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)*** | Mae'r Cynllun Strategol ar gyfer Economi Ymwelwyr Cynaliadwy, Gwynedd ac Eryri (2035) wedi ei fabwysiadu'n swyddogol gan Aelodau a Chabinet Cyngor Gwynedd. Mae camau nesaf yn cael eu trefnu ar hyn o bryd gan gynnwys lansiad swyddogol y Cynllun Strategol, a fydd yn digwydd ddiwedd haf 2023; sefydlu Partneriaeth Economi Ymwelwyr Cynaliadwy; a bydd gwaith ar ddatblygu'r Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno yn dechrau wedi hynny. | Parhau i ddatblygu yn ddarostyngedig i gyllid. |

| **Mynd ati i chwilio am gyfleoedd i gyfrannu at Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru a fydd yn helpu i gefnogi gweledigaeth trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer Eryri.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)*** | Gwahoddwyd APCE i siarad â Chomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru ym mis Tachwedd. | Cwblhawyd. |

| **Annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol, trwy Ymgyrch Tymor 2021 a thrwy ddatblygu Profiadau Parc Cenedlaethol Cymru.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***<br><br>**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)*** | Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda grŵp y PC ar brofiadau'r PC ac mae'r canlyniadau hyd yma wedi bod yn weddol gyfyngedig.<br>Trafodaethau cychwynnol felly i'w cynnal gyda Dolan – cynllun a arweinir gan y gymuned yn lleol – i weld sut y gallwn gefnogi eu gwaith, gyda phwyslais arbennig ar Gynllun Llysgenhadon y PC.<br>Bydd Swyddog cynllun di-blastig Yr Wyddfa hefyd yn gweithio ar gynllun achredu peilot ar leihau defnydd plastig gan fusnesau. | Adolygu gwaith ar gyfer y tymor nesaf. |

| **Parhau i ddatblygu cynllun Llysgenhadon Eryri a'u defnyddio i helpu i ledaenu negeseuon.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***<br><br>**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)***<br><br>**CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***) | Mae'r cynllun yn parhau i fynd o nerth i nerth. Bydd Llysgenhadon Eryri yn cael eu cynnwys yn Ymgyrch Cyfathrebu Tymor Ymwelwyr 2023 – Eryri Ni. | Parhau i ddatblygu Llysgenhadon Eryri. |

| Sicrhau bod y CDLI presennol yn gweithredu ei bolisïau'n gadarnhaol i gyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy, sy'n ychwanegu gwerth i gymunedau lleol. | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***<br><br>**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)*** | Mae polisïau CDLI Eryri yn cael eu monitro'n flynyddol a'u gweithredu yn ôl y bwriad. Mae gwaith wedi dechrau ar yr Adolygiad o CDLI Eryri. Adroddiad Adolygu drafft i ymgynghori arno yng ngwanwyn 2023. Tair egwyddor graidd Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035: Cynllun Strategol (h.y. 1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth 2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd 3. Sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd ac Eryri yn gorbwyso unrhyw anfanteision) angen eu hadlewyrchu ym mholisïau CDLI Eryri yn y dyfodol. | Gwaith yn mynd rhagddo'n dda. |

| Ceisio sefydlu Grŵp Cyflawni a Chylch Gorchwyl ar gyfer ardal Gogledd Eryri a fydd yn galluogi gwell gwaith partneriaeth a blaenoriaethu a chyflawni prosiectau teithio a thrafnidiaeth gynaliadwy yn llwyddiannus. | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***<br><br>**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)*** | Mae'r grŵp wedi'i sefydlu a'r cylch gorchwyl wedi'i gytuno. | Cwblhawyd. |

| **Datblygu sefyllfa strategol y Parc Cenedlaethol ar ardoll twristiaeth a chymryd rhan weithredol yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn hydref 2022.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC1, 3, 5:** Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1)***<br><br>**CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***<br><br>**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)*** | Ymateb wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. | Cwblhawyd. |

## CC4 – Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:**

| **Cynhyrchu Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg 5 mlynedd newydd ar gyfer y cyfnod 2022-26.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)***<br><br>**CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***) | Yn dilyn ymgynghoriad mewnol, cyfarfu'r Grŵp Llywio yn ystod y flwyddyn i ystyried yr ymatebion ac i ddatblygu ymhellach y meysydd blaenoriaeth allweddol (nodau, canlyniadau a dangosyddion) cyn cyflwyno drafft o'r Strategaeth i'r Gweithgor Aelodau ar y 7fed o Ragfyr. Yn dilyn hyn, aeth y Strategaeth ddrafft allan i ymgynghoriad cyhoeddus, a | Cwblhawyd. |

| | | |
|---|---|---|
| | oedd yn rhedeg o'r 8fed o Ragfyr hyd at y 3ydd o Chwefror.<br>Cyfarfu'r Grŵp Llywio ar yr 8fed o Chwefror i drafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a chytuno ar y newidiadau sydd eu hangen i'r drafft. Cyflwynwyd fersiwn terfynol y Strategaeth i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 22ain o Fawrth i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu. | |

| **Parhau i ddatblygu Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol sy'n hyrwyddo diwylliant Cymraeg a mynd ati i ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)***<br><br>**CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)***<br><br>**CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)<br><br>**CC4:** Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2***) | Darparodd Haf o Hwyl arian ar gyfer rhaglen lawn o weithgareddau teuluol ar gyfer yr Haf a'r Hydref. Roedd gweithgareddau ychwanegol yn cynnwys gigs gwerin a theithiau tywys. Mae nifer o weithgareddau wedi eu targedu at ddysgwyr Cymraeg (gan gynnwys taith archeolegol, gigs ac ysgol goedwig).<br>Safle ar gau dros y gaeaf. Cyflawnwyd peth o raglen weithgareddau'r Nadolig yn llwyddiannus, fodd bynnag cafodd un digwyddiad y gwerthwyd pob tocyn iddo ei ganslo oherwydd y tywydd.<br>Calendr gweithgaredd a digwyddiadau 2023 yn cael ei ddatblygu. Cynhelir sesiwn celfyddydau cymunedol i staff, gwirfoddolwyr a thrigolion lleol ym mis Mawrth 2023 cyn agor arddangosfa wlân Friesland ym mis Ebrill. | Parhaus. |

<table>
<tr><th colspan="3">Datblygu’r prosiect arddangosfa ‘Geiriau Diflanedig’ trwy gydweithrediad ag Amgueddfa Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (gyda chefnogaeth cronfa TCLIC), gan ddod ag arddangosfa ‘Geiriau Diflanedig’ / 'The Lost Words' i Gymru am y tro cyntaf ac arddangos camp ddwyieithog epig y blodeugerddi.</th></tr>
<tr><th>Dangosydd Perfformiad</th><th>Canlyniad</th><th>Camau i’w Cymryd</th></tr>
<tr><td>CC4, 5: Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)<br><br>CC4: Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2)<br><br>CC4: Byddwn wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3)</td><td>Sicrhawyd cyllid Artfund i ariannu preswyliad artist ysgol, gweithdy barddoniaeth ac adnoddau addysgol. Mae'r prosiect cydweithredol gydag Amgueddfa Cymru ac APCAP yn mynd rhagddo'n dda.</td><td>Prosiect i’w gyflawni yn 2023.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="3">Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg trwy ddatblygu canllawiau ar gyfer defnyddio enwau lleoedd gan APCE.</th></tr>
<tr><th>Dangosydd Perfformiad</th><th>Canlyniad</th><th>Camau i’w Cymryd</th></tr>
<tr><td>CC4, 5: Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)<br><br>CC4: Byddwn wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3)</td><td>Mae’r Panel Safoni Enwau Lleoedd wedi cymeradwyo’r rhestr o enwau lleoedd Eryri ar gyfer safoni. Bydd y cydweithio nesaf yn canolbwyntio ar enwau copaon a chopaon Eryri.</td><td>Aros am adroddiad pellach.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="3">Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg trwy'r strategaeth wirfoddoli.</th></tr>
<tr><th>Dangosydd Perfformiad</th><th>Canlyniad</th><th>Camau i’w Cymryd</th></tr>
<tr><td>CC4, 5: Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio</td><td>Darparwyd cyfle i 35 o wardeniaid gwirfoddol ar Yr Wyddfa ac 11 ar Gader Idris fel rhan o’r cynllun cyfaill yn 2022.</td><td>Parhau.</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  C1.1***)<br><br>**CC4:**  Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  C1.2***) | | |

| **Bydd prosiect Lleisiau ac Enwau Lleoedd y Carneddau a Chynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn cofnodi, diogelu a dathlu enwau lleoedd Cymru trwy ddigwyddiadau mapio cymunedol, cyfweliadau hanes llafar, prosiectau allgymorth a dehongli.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC4, 5:**  Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  C1.1***)<br><br>**CC4:**  Byddwn wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  C1.3***) | Roedd sioe deithiol Lleisiau'r Carneddau wedi'i threfnu mewn chwe chymuned o amgylch y Carneddau. Roedd y sesiynau'n cyfuno cyfweliadau wedi'u cynllunio ymlaen llaw a chyfweliadau galw heibio a recordiwyd ar ffilm. Roedd y sioe deithiol yn llwyddiannus gyda thua 30 o gyfweliadau wedi'u recordio. Mae sesiynau allgymorth cymunedol yn cael eu datblygu er mwyn creu dehongliad digidol yn seiliedig ar y cyfweliadau. | Gwaith yn parhau. |

| **Sicrhau bod Polisi Datblygu 18: yr Iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y broses rheoli datblygu.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |

| | | |
|---|---|---|
| **CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)<br><br>**CCC 4:** Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)*** | Mae mecanweithiau wedi'u rhoi ar waith o fewn y broses gofrestru, i sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y broses rheoli datblygu. | Parhaus. |

| **Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Safle Treftadaeth y Byd, Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, i gefnogi'r broses Rheoli Datblygu.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)<br><br>**CCC 4:** Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)*** | Mabwysiadwyd y Canllaw Cynllunio Atodol: Tirweddau Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd Orllewin Cymru gan yr Awdurdod mewn Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2022. | Cwblhawyd. |

## CC5 – Datblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad a rheolaeth Eryri fel Parc Cenedlaethol

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:**

| **Sicrhau gweithrediad cadarnhaol polisïau cyfredol y CDLl i ddatblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad y PC.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol | Mae polisïau CDLl Eryri yn cael eu monitro'n flynyddol a'u | Parhaus. |

| | | |
|---|---|---|
| adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***<br><br>**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)*** | gweithredu fel y bwriedir i ddatblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad y Parc Cenedlaethol. | |

| **Cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r aelodau i'w drafod ac ystyried yr amserlen ar gyfer dechrau adolygiad o'r CDLl cyfredol.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CC1, 3, 5:** Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddwyr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1)***<br><br>**CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***<br><br>**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)***<br><br>**CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***) | Cwblhawyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) ym mis Hydref 2022 ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar gyfer cyflwyno AMB eleni a fydd yn cael ei gyflwyno i Aelodau yn ddiweddarach yn y flwyddyn. | Parhaus. |

| **FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Byddwn yn cyflawni hyn drwy:** | | | | | | | |
| **CW1** Datblygu gweithlu medrus | ✓ | ✓ | ✓ | | | | |
| **CW2** Datblygu a hyrwyddo arfer gorau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| **CW3** Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| **CW4** Moderneiddio trefniadau llywodraethu | ✓ | ✓ | | ✓ | | | ✓ |
| **CW5** Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol i waith y Parc Cenedlaethol | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## CW1 – Datblygu gweithlu medrus

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:**

| **Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad:<br>Bydd holl aelodau staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso o fewn 12 mis.<br>Cynnal asesiadau anghenion hyfforddi yr holl staff o fewn 12 mis.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW1, 2:** Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol. | Mae rheolwyr yn trefnu adolygiadau perfformiad blynyddol trwy system arfarnu. Mae asesu anghenion hyfforddi yn rhan o'r broses arfarnu / gwerthuso. | Gweithredu parhaus. |

| **Cefnogi staff i fynychu grwpiau cymheiriaid y Parc Cenedlaethol i'w hysbysu am ddatblygiadau ac i gynorthwyo rheoli perfformiad a dealltwriaeth o fewn eu priod ddisgyblaethau.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW1, 2:** Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol. | Mae cyfarfodydd rhithiol a rhai cyfarfodydd grŵp cyfoedion wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal yn barhaus y mae staff APCE yn eu mynychu fel y bo'n briodol. | Parhaus. |

| **Datblygu ein gweithlu ymhellach a rhoi pob cyfle i staff ddatblygu i gwrdd â heriau'r dyfodol.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW1, 2:** Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol. | Mae rheolwyr yn archwilio gofynion hyfforddi a datblygu aelodau tîm trwy'r system arfarnu flynyddol. Mae cyfleoedd secondiad mewnol ac allanol yn cael eu hystyried a'u cynnig lle bo hynny'n ymarferol. | Parhaus. |

## CW2 – Datblygu a hyrwyddo arfer gorau

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:**

| **Rhannu cyflawniadau prosiectau Datgarboneiddio trwy gyllid TCLIC gyda chyrff eraill o fewn tirweddau dynodedig a'r ystad gyhoeddus ehangach.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW2, 3:** Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. | Mae presenoldeb mewn rhith-gyfarfodydd chwarterol o Grŵp Datgarboneiddio Cyrff Cyhoeddus Gogledd Cymru gan Bennaeth Eiddo yn parhau, sy'n cynnwys rhannu arfer gorau o brosiectau a gyflawnwyd. | Parhaus. |

| **Pan y'i penodir, Pennaeth Adnoddau Dynol newydd i goladu gwybodaeth parthed arfer gorau mewn Parciau Cenedlaethol eraill, cael adborth gan staff a drafftio papur i'w drafod/ystyried gan y Gweithgor Aelodau.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW1, 2:** Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol. | Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn 2023-24. | Gwaith wedi'i ohirio oherwydd pwysau eraill ond bydd yn cael ei wneud yn 2023-24. |

| **Adolygu trefniadau gweithio staff mewn ymateb i darged LIC o weithio gartref a gweithio cartref/swyddfa cyfunol lle bo modd i staff wneud hynny.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW1, 2:** Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol. | Mae holiadur wedi'i ddosbarthu i'r holl staff yn gwahodd eu barn a'u sylwadau. Mae'r ymatebion yn cael eu hasesu ar hyn o bryd a bydd adroddiad canlyniadau yn cael ei ddosbarthu i'r Tîm Rheoli a Phenaethiaid Gwasanaeth erbyn diwedd mis Mawrth er mwyn ei drafod a chytuno arno fel sail ar gyfer ffyrdd newydd o weithio. Bydd ymgynghoriad gyda'r Undebau wedyn yn cael ei gynnal. | Gwaith wedi'i ohirio oherwydd pwysau eraill ond bydd yn cael ei wneud yn 2023-24. |

## CW3 – Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:**

| **Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus a chyflwyno'r adroddiad cynnydd blynyddol cyntaf i'r Awdurdod.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW2, 3:** Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. | Cyflwynwyd yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol Cyntaf i'r Awdurdod ym mis Mai 2022. Mae gweithredu Cynllun Eryri yn parhau'n gyflym ac adroddir ar y cynnydd gan y Partneriaid yng nghyfarfodydd chwarterol Fforwm Eryri. Gwaith yn parhau. | Monitro parhaus yn ystod oes Cynllun Eryri. |

| **Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol (PTDC) yng Nghymru.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW2, 3:** Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. | Cynhaliwyd seminar ar y Gŵyr 8/9 Mawrth gyda dros 60 o gyfranogwyr. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r Bartneriaeth sy'n cael eu cadeirio gan Brif Weithredwr yr Awdurdod. | Parhaus. |

| **Parhau i gefnogi gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled y DU, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol, Sefydliad Parciau Cenedlaethol a mentrau cydweithredol cysylltiedig eraill.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW2, 3:** Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. | Mae'r cynllun busnes mabwysiedig ar gyfer y 3 blynedd nesaf bellach yn cael ei weithredu gan Bartneriaeth y Parc Cenedlaethol gyda noddwyr masnachol pellach i'w cyhoeddi. Mae'r gwaith o recriwtio cyfarwyddwyr newydd i'r NPP wedi dechrau ac mae tendro ffurfiol o'r teulu o Barciau Cenedlaethol ar gyfer darparu swyddogaeth gyfathrebu am y tair blynedd nesaf ar gyfer NPP, y Sefydliad ac NPUK wedi dechrau. | Adolygu trefniadau maes o law. |

| Cyfrannu at ffurfio a datblygu swyddogaeth gynllunio Cydbwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru (CJC). | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW2, 3:** Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. | Mae cyllideb y CJC wedi'i phennu. Y prif gynnydd dros y misoedd nesaf fydd cadarnhad o strwythur staffio'r CJC.<br>Cyfarfod pellach gan y CJC ym mis Mawrth 2022, ac ar ôl hynny bydd Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru yn gwneud gwaith manylach ar gwblhau swydd disgrifiadau a dogfennau gwerthuso swyddi. Rhagwelir y bydd y broses recriwtio yn digwydd yn ystod dau chwarter cyntaf 2023/24 (er bod dyddiadau i'w cadarnhau). | Parhaus. |

## CW4 – Moderneiddio trefniadau llywodraethu

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:**

| Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen Aelodau/ Staff i drafod a datblygu trefniadau llywodraethu modern yn APCE. | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW2, 4:** Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad. | Adroddiad wedi'i gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod, mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau. | Cwblhawyd. |

| Sefydlu rhaglen fentora ar gyfer aelodau'r Awdurdod. | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW2, 4:** Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad. | Cynhaliwyd sesiwn Anwytho / Gynefino newydd i Aelodau pan ddywedodd yr aelodau eu bod yn setlo'n dda.<br>Dosbarthwyd holiadur i ganfod pa aelodau newydd sydd angen mentor i'w cynorthwyo ymhellach i setlo i mewn.<br>Deilliant yr ymatebion i'w symud ymlaen yn 2023-24. | Bwrw ymlaen â chamau gweithredu y cytunwyd arnynt. |

| **Cefnogi a datblygu aelodau'r Awdurdod trwy sefydlu rhaglen hyfforddi a datblygu.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW2, 4:** Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad. | Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CNC i wella'r hyfforddiant a'r canllawiau a gynigir i aelodau'r Parc Cenedlaethol a'r Cydbwyllgor Cynghori. Byddwn yn adrodd ymhellach unwaith y bydd y manylion yn hysbys. | Bwrw ymlaen maes o law. |

| **Gosod Serfwyr System Gwybodaeth newydd** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW2, 4:** Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad. | Serfwyr systemau gwybodaeth wedi'u gosod ac yn fyw. | Cwblhawyd. |

## CW5 – Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol i waith y Parc Cenedlaethol

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:**

| **Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli pellach yn Yr Ysgwrn i wella'r garfan bresennol o wirfoddolwyr, gan geisio recriwtio pobl ifanc sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau gan wirfoddolwyr yn ogystal â rolau mwy traddodiadol fel tywyswyr ymwelwyr.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi. ***(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1)*** | Mae Covid wedi cael effaith andwyol ar nifer y gwirfoddolwyr yn Yr Ysgwrn, ond mae nifer fach o wirfoddolwyr wedi dechrau yn 2022 ac mae nifer o wirfoddolwyr presennol wedi dychwelyd i'r safle. Sesiwn celf cymunedol lleol a gwirfoddolwyr a drefnwyd ar gyfer mis Mawrth. | Parhaus. |

| | | |
|---|---|---|
| **CW5:** Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.2***)<br><br>**CW5:** Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)*** | | |

| **Parhau i weithredu mesurau Strategaeth Ymgysylltu i sicrhau bod cymunedau lleol yn deall ac yn ymwybodol o waith yr Awdurdod.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi ***(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1)***<br><br>**CW5:** Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)*** | Gwaith yn mynd rhagddo i gyfleu negeseuon trwy gyfryngau cymdeithasol a thrwy gyfrwng y wasg draddodiadol a lleol a chenedlaethol.<br>Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Blynyddol. Bydd adroddiad DPA yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn fuan. | Parhaus. |

| **Parhau i ymgysylltu â chymunedau lleol ar agweddau o Astudiaeth Rheoli Traffig Ardal yr Wyddfa.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW5:** Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)*** | Yn ogystal â phrosiectau ymgysylltu cymunedol mae'r Rheolwr Partneriaethau yn aelod o grŵp cymunedol Llanberis a gydlynir gan Gyngor Gwynedd. Mae Grŵp Parcio a Chludiant Ogwen yn cyfarfod yn fisol. Ymgysylltu ar gyfer prosiectau penodol a ariennir gan Trafnidiaeth Cymru yn ôl yr angen. | Mynd rhagddo. |

| Ymgysylltu â chymunedau a'u hysbysu trwy gyfarfodydd â Chynghorau Cymuned. | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi ***(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1)***<br><br>**CW5:** Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)*** | Mae dau gyfarfod gyda'r nos ar-lein trwy Zoom wedi'u cynnal ar y 25ain a'r 27ain o Hydref. Roedd yr agenda yn cynnwys cyflwyniadau a diweddariadau ar waith Partneriaeth y Carneddau, SRhC Dinas Mawddwy, Prosiect Harlech a Dyffryn Ardudwy, yn ogystal â sesiwn holi ac ateb i roi cyfle i gyfranogwyr ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau ar unrhyw faterion eraill o ddiddordeb. | Mynd rhagddo. |

| Adfer cyswllt â pherchnogion tir a phartïon â diddordeb trwy gyfarfodydd Fforymau Mynediad Parc Cenedlaethol Eryri. | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi ***(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1)***<br><br>**CW5:** Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.2***)<br><br>**CW5:** Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)*** | Mae cyfarfodydd Fforwm Mynediad Lleol y Gogledd a'r De wedi'u cynnal ar-lein ym mis Mawrth (2), a chyfarfodydd wyneb yn wyneb ym Mehefin (2) a Medi (2). | Cwblhawyd. |

| **Parhau i gysylltu â'r gymuned ffermio ac undebau ffermio trwy gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Amaethyddol.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi ***(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1)***<br><br>**CW5:** Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)*** | Cyfarfod Blynyddol y Grŵp Cyswllt Amaethyddol wedi'i gynnal ym mis Tachwedd 2022. | Cwblhawyd. |

| **Cynnwys ein cymunedau lleol ym mhob agwedd bwysig o waith yr Awdurdod e.e. cyflawni Cynllun Eryri, llunio Canllawiau Cynllunio Atodol, Strategaethau Ymgysylltu wrth ddatblygu prosiectau newydd ayb.** | | |
|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad | Camau i'w Cymryd |
| **CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi ***(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1)***<br><br>**CW5:** Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.2***)<br><br>**CW5:** Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)*** | Mae swydd ddisgrifiad ar gyfer Swyddog Ymgysylltu Cymunedol wedi'i ddrafftio, rydym yn gobeithio y byddwn yn recriwtio yn ystod hydref 2022.<br>Penodwyd swyddog a bydd yn dechrau yn ei swydd ddiwedd mis Mawrth. Bydd gwaith yn mynd rhagddo unwaith y bydd y swyddog yn ei swydd. | Parhaus. |

Gwerthusiad o'r cynnydd hyd yma:

Gellir gweld bod cynnydd da wedi'i wneud wrth gyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn. O ystyried yr ystod eang o waith efallai nad yw'n syndod bod rhai agweddau nad ydynt wedi'u cwblhau yn unol â'r cynllun, yn enwedig o ystyried maint y gwaith dan sylw o ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r Awdurdod. Fodd bynnag, mae'n galonogol nodi bod mwyafrif y prosiectau naill ai wedi'u cwblhau neu ar amser. Fodd bynnag, mae sefyllfa ariannu'r Awdurdod yn destun pryder parhaus gan fod yr Awdurdod wedi derbyn cyllideb sefydlog ddangosol ar gyfer y cylch cyllido nesaf. Gyda chwyddiant ar hyn o bryd yn fwy na 10% y flwyddyn mae hyn yn debygol o fod yn gyfystyr â thoriad yn y byd go iawn o o leiaf 20% o gyllideb yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn parhau i ddangos cadernid sylweddol wrth addasu a pharhau i ddarparu gwasanaeth tra ar yr un pryd yn cynllunio ar gyfer y dyfodol yn ystod y cyfnod anodd hwn ond mae toriad yn y byd go iawn sydd ohoni yn sicr o effeithio ar ei allu i gyflawni.

# 7. RHEOLI PERFFORMIAD

Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn adrodd ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella a chyflawni eu gwasanaethau.

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar waith Archwilio Cymru ac yn tynnu ar arolygiaethau perthnasol yng Nghymru ac mae'n cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad yn cynnwys cynllunio, cyflawni a gwerthuso gwelliant gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod).

Cadarnhaodd yr Adroddiad fod yr Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, ond yn sgil yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baent yn darganfod pethau y gellir eu gwella.

Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwella a chafodd y rhain eu hailadrodd yn yr adroddiad. Bydd Archwilio Cymru yn monitro cynnydd yn eu herbyn ac argymhellion perthnasol a wnaed yn yr adroddiadau cenedlaethol fel rhan o'u gwaith asesu gwelliant.

# 8. Y FFRAMWAITH GWELLIANT

Mae gan Aelodau'r Awdurdod ran annatod i'w chwarae wrth sicrhau bod y fframwaith gwelliant yn darparu proses gadarn ar gyfer sicrhau ein bod yn cyflawni allbynnau llwyddiannus.


Fel rhan o'r broses hon, mae'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ystyried adroddiadau chwarterol ar weithrediad Rhaglen Waith Gorfforaethol yr Awdurdod am y flwyddyn sy'n asesu llwyddiant yr Awdurdod wrth gyflawni ei Amcanion Llesiant.

Mae'r broses werthuso a ddilynir gyda holl staff yr Awdurdod yn sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro ac mae'n gyfle i'r staff gael adrodd ar ddiwedd tasgau unigol mewn perthynas â'r Amcanion Gwelliant yn ogystal ag unrhyw broblemau y deuir ar eu traws.

Mae'r fframwaith gwelliant wedi'i nodi ar y dudalen nesaf.

# Yr EDEFYN AUR

## FfRAMWAITH CYNLLUNIO CORFFORAETHOL APCE



# 9. MANYLION CYSWLLT

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon, cysylltwch naill ai drwy ysgrifennu neu e-bostio:

**Iwan Jones**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol / Director of Corporate Services
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri / Snowdonia National Park Authority
Ffôn / Phone: 01766 772204
e-bost / e-mail: iwan.jones@eryri.llyw.cymru

**EITEM RHIF 9**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 13 Medi 2023 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y GWIR WEITHGARWCH RHEOLAETH TRYSORLYS YN 2022/23** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Swyddog Cyllid |
| **PWRPAS** | Adroddir yn unol â gofynion statudol. Gofynnir i aelodau'r Awdurdod nodi'r cynnwys er gwybodaeth yn unig. |

## 1. CRYNODEB

1.1 Mae'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys yr Awdurdod. Yn ystod 2022/23 arhosodd gweithgarwch yr Awdurdod o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Ni fu unrhyw fenthyca. Nid oedd unrhyw fanciau yr oedd yr Awdurdod wedi'u defnyddio ar gyfer buddsoddi wedi methu â thalu.

1.2 Yn 2022/23, £135,616 oedd y cyfanswm llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau, yn erbyn cyllideb o £8,000. Mae £331 o log a dderbyniwyd o fenthyciadau ceir yn cynyddu'r cyfanswm i £135,947.

1.3 Mae'r swm llog banciau a chymdeithas adeiladu o £135,616 am 2022/23 yn gynnydd sylweddol ar y swm o £10,902 a dderbyniwyd yn 2021/22. Deillir y cynnydd yn uniongyrchol o ganlyniad i chwyddiant a'r effaith ar y cyfraddau llog sydd wedi cynyddu sawl tro yn ystod y flwyddyn ac yn parhau i gynyddu.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae buddsoddiadau rheolaeth trysorlys yn deillio o lif arian yr Awdurdod, incwm a dderbyniwyd o flaen llaw gwariant, yn ogystal â balansau a reserfau sydd angen eu buddsoddi hyd nes bydd angen yr arian ar gyfer dibenion yr Awdurdod. Drwy fuddsoddi symiau sylweddol, mae'r Awdurdod yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colled o gyllid sydd wedi ei fuddsoddi. Mae swyddogion cyllid yr Awdurdod yn adnabod, arolygu a rheoli'r risgiau yma fel eu bod yn gyson â strategaeth rheolaeth trysorlys yr Awdurdod. Gan gydymffurfio hefo gofynion CIPFA (*Chartered Institute of Public Finance and Accountancy*) cymeradwyodd yr Awdurdod ei Strategaeth ar gyfer Rheolaeth Trysorlys 2022/23 yng nghyfarfod 9 Chwefror 2022.

2.2. Mae’n ofynnol yn ôl fframwaith CIPFA ‘Rheolaeth Trysorlys yn y Sector Gyhoeddus: Cod Ymarfer’ i’r Awdurdod gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol, ac i dderbyn adroddiad alldro trysorlys ar ddiwedd blwyddyn ariannol a phob hanner blwyddyn . Adroddir yma ar wir weithgaredd Rheolaeth Trysorlys (benthyca a buddsoddi) yr Awdurdod yn ystod 2022/23.

## 3. BENTHYCIADAU

3.1 Mae canllawiau buddsoddi CIPFA a Llywodraeth Cymru yn gofyn i’r Awdurdod fuddsoddi yn bwyllog, gan ystyried diogelwch a hylifedd ein balansau/buddsoddiadau, yn hytrach nac anelu i sicrhau’r enillion gorau posibl.

A. **Terfynau Benthyca 2022/23**

Ar 9 Chwefror 2022 cymeradwyodd yr Awdurdod Derfynau Benthyca fel a ganlyn ar gyfer 2022/23 :-

(i) Uchafswm Benthyca Cyffredinol o £500,000 ar gyfer 2022/23, gan gynnwys Terfyn benthyca Tymor Byr o £100,000.

(ii) Peidio â gosod uchafswm ar gyfran llog taladwy sydd â chyfradd llog newidiol.

Nodwyd pryd gosodwyd y terfynau yma eu bod ‘rhag ofn’, a nad oedd disgwyliad i’r Awdurdod fenthyg.

B. **Benthyca Gwirioneddol 2022/23**

Dechreuodd yr Awdurdod y flwyddyn ariannol heb ddyled, a thalwyd am wariant refeniw a chyfalaf yn ystod 2022/23 gydag arian grantiau a chronfeydd refeniw. Felly, o safbwynt Rheolaeth Trysorlys, mae’r Awdurdod yn parhau i fod yn ddiddyled.

## 4. BUDDSODDI

4.1 Bu’n bosibl i’r Awdurdod fuddsoddi ac ennill llog oherwydd swm y balansau a’r llif-arian positif. Cafodd yr arian hwnnw ei fuddsoddi fel a ganlyn, yn unol â’r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys:

- Rhoddwyd balansau y rhagwelwyd y byddwn yn eu dal yn y tymor byr – tymor canolig yng nghyfrifon “dim rhybudd” BOS (Bank of Scotland), HSBC (cyfrif cadw), Nationwide a Santander UK, cyfrifon rhybudd 32/35 diwrnod (Bank of Scotland, HSBC a Santander UK) a chyfrifon rhybudd 95 diwrnod (Nationwide a Santander UK).

4.2 Roedd y gyfradd banc yn 0.75% ar gychwyn y cyfnod adrodd (blwyddyn ariannol 2022/23). Arweiniodd effaith parhaus chwyddiant, wedi ei yrru yn wreiddiol gan effaith prisiau egni, at sawl newid yn y raddfa yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd Banc Lloegr wedi cynyddu’r gyfradd i 4.25%. Roedd cyfraddau Banc Lloegr wrth gwrs yn arwain at y banciau yn adolygu’r cyfraddau roeddent yn fodlon eu cynnig a gwelwyd effaith cynyddol drwy gydol y flwyddyn wrth i’r cyfraddau barhau i godi. Adlewyrchir hyn yn y tablau isod sydd yn amlinellu’r

cynnydd yn y cyfraddau llog yn o gystal â'r swm a enillwyd mewn llog yn ystod y flwyddyn:

| **Cyfrif** | **Balans Cyfartalog dros y cyfnod buddsoddi** | **Cyfradd llog** | **Llog a enillwyd** |
|---|---|---|---|
| **Cyfrif Busnes Banc yr Alban** | £ 482,570 | 0.01% - 0.7% | £ 1,101 |
| (365 diwrnod mewn credyd) | | | |
| **Cyfrif Tymor 32 diwrnod Banc yr Alban** | £1,656,111 | 0.05% - 1.85% | £ 8,731 |
| (365 diwrnod mewn credyd) | | | |
| Buddsoddiad Cyf. - 12246269TS | £ 10,000 | 0.05% - 1.85% | £ 340 |
| Buddsoddiad Cyf. - 18123752TS | £ 289,163 | 0.05% - 1.85% | £ 3,073 |
| **Cyfrif Cadw HSBC** | £1,828,814 | 0.01% - 1.31% | £ 10,230 |
| (365 diwrnod mewn credyd) | | | |
| **Cyfrif Cyfredol "MoneyMarket" HSBC** | £2,054,222 | 0.01% | £ 55 |
| (97 diwrnod mewn credyd) | | | |
| **Cyfrif "Instant Saver" Nationwide** | £ 450,449 | 0.05% - 1.3% | £ 2,269 |
| (365 diwrnod mewn credyd) | | | |
| **Cyfrif Tymor 95 diwrnod Nationwide** | £1,710,699 | 0.4% - 2.85% | £ 29,328 |
| (365 diwrnod mewn credyd) | | | |
| **Cyfrif "Busnes Savings" Santander** | £ 456,210 | 0.41% - 2.63% | £ 5,242 |
| (365 diwrnod mewn credyd) | | | |
| **Cyfrif Tymor 35 diwrnod Santander** | £ 790,236 | 0.44% - 3.68% | £ 12,942 |
| (365 diwrnod mewn credyd) | | | |
| **Cyfrif Tymor 95 diwrnod Santander** | £ 896,075 | 0.74% - 3.68% | £ 18,184 |
| (365 diwrnod mewn credyd) | | | |
| **Cyfrif Barclays "32 Day Notice"** | £1,666,278 | 0.7% - 4.2% | £ 39,069 |
| (365 diwrnod mewn credyd) | | | |
| **Cyfrif Barclays "32 Day Notice" - Hefo Rhybydd** | £ 192,453 | 1.05% - 3.8% | £ 1,940 |
| (173 diwrnod mewn credyd) | | | |
| **Cyfrif Barclays "Business Premium"** | £ 414,795 | 0.2% - 1.6% | £ 3,112 |
| (365 diwrnod mewn credyd) | | | |
| **Cyfrif Santander "Business Reserve "** | | | £ - |
| (Incwm arian parod Canolfannau Gwybodaeth) | | | |
| **Cyfanswm Llog** | | | **£135,616** |

4.3 Yn bwysicach, **cadwyd holl falansau'r Awdurdod yn ddiogel, gan nad oedd unrhyw fanciau**, o'r rheiny defnyddiwyd ar gyfer buddsoddi (adnau arian) yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, **wedi methu ad-dalu.**
Roedd yr holl weithgareddau rheolaeth trysorlys yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio a 'CIPFA Code of Practice' a strategaeth Rheolaeth Trysorlys yr Awdurdod.

## 5. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i aelodau'r Awdurdod nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.**

**EITEM RHIF 10**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 13 Medi 2023 |
| **TEITL** | **DIWEDDARIAD O GYLLIDEB 2023-24** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Cyllid |
| **PWRPAS** | I hysbysu'r Aelodau –<br>- o drosglwyddiadau sylweddol,<br>- o'r cynnydd yn erbyn y gyllideb refeniw a chyfalaf, ynghyd ag amcanion ar gyfer y flwyddyn ariannol. |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynir crynodeb o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer 2023/24 gyda newidiadau sy'n adlewyrchu'r cyfnod o ddechrau'r flwyddyn ariannol h.y.1af o Ebrill 2023 hyd at yr 31ain o Orffennaf 2023.

1.2 Mae rhan 4 o'r adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn y gyllideb net refeniw, ynghyd â chymhariaeth gyda'r sefyllfa o'r un cyfnod yn 2022/23.

1.3 Mae 'llithriant' o flwyddyn ariannol 2022/23 a oedd wedi ei neilltuo at ddiben penodol wedi ei ychwanegu i'r gyllideb. Mae hyn yn cynnwys arian i dalu am archebion penodol, tanwariant ar grantiau mae'r awdurdod yn darparu a chyfraniad tuag at gyflogau yn ogystal â thanwariant ar gynlluniau cyfalaf yr Awdurdod.

1.4 Mae cynlluniau grant 'Tirwedd Cynaliadwy, Llefydd Cynaliadwy' (T.C.Ll.C) 2022/23 - 2024/25 yn parhau. Cyfanswm gwerth y cynlluniau yma yw £2.5 miliwn gydag amcan o'r gwariant wedi neilltuo dros y tair blynedd a £850,000 ar gyfer 2023/24.

1.5 Mae grant ychwanegol T.C.Ll.C ar y cyd â pharciau cenedlaethol eraill Cymru a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae hyd at £500k wedi ei glustnodi dros dair blynedd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gweinyddu'r cynllun. Derbyniodd yr Awdurdod £150,000 yn 2022/23 gyda £218,750 ar gael ar gyfer y cynllun ar y cyd yn 2023/24.

1.6 Gwaith cyfalaf yw prif ddiben y grantiau T.C.Ll.C ond mae ffioedd gweinyddu o 10% wedi eu cytuno gyda Llywodraeth Cymru yn ogystal â ffioedd

gweithredu er mwyn cyfrannu at adnoddau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r cynlluniau. Mae'r ffioedd yma yn amrywio o 5% - 15% o gyfanswm y grant yn ddibynnol ar gymhlethdod y cynllun a'r angen am adnoddau ychwanegol er mwyn eu cyflawni'n effeithiol. Yn arferol mae effaith cynlluniau grant cyfalaf o'r fath ar y waelodlin yn net o '£0', ond mae'n bosib i'r elfen arian gweithredu gyfrannu tuag at amser y staff gan greu arbedion yn erbyn y gwasanaethau a'r waelodlin.

1.7 Mae cynllun grant cyfalaf Prosiect Tŷ Natur yn parhau yn 2024/25 gyda'r gwariant yn cael ei hawlio nôl drwy gais i Gyngor Gwirfoddol Gweithredu Cymru (CGGC). Mae cynlluniau grant Treftadaeth y Loteri megis Carneddau hefyd yn parhau.

1.8 Nid oes unrhyw grantiau ychwanegol wedi eu derbyn ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar y gweill.

## 2. CYLLIDEB REFENIW DIWYGIEDIG 2023-24

2.1 Cafodd y Gyllideb Net Wreiddiol ei chymeradwyo gan yr Awdurdod ar yr 8fed o Chwefror 2023.

| **Gwasanaethau** | **Cyllideb Sylfaenol** | **Trosglwyddiadau** | **Cyllideb Net Ddiwygiedig** |
|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** |
| | | | |
| Cynllunio a Rheoli Tir | 2,309,185 | - 30,587 | 2,278,598 |
| Corfforaethol | 5,038,111 | 183,592 | 5,221,703 |
| Balansau | 261,600 | - | 261,600 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau** | **7,608,896** | **153,005** | **7,761,901** |
| | | | |
| Llog a ennilwyd ar falansau | - 28,000 | - 92,000 | - 120,000 |
| Refeniw yn ariannu gwariant Cyfalaf | 503,970 | 218,889 | 722,859 |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf | - 591,050 | - | - 591,050 |
| **Cyllideb net** | **7,493,816** | **279,894** | **7,773,710** |
| | - | - | - |
| **Arianwyd o** | **-** | **-** | **-** |
| Grant Parciau Cenedlaethol | 4,119,789 | - | 4,119,789 |
| Ardoll Awdurdodau Cyfansoddol | 1,373,262 | - | 1,373,262 |
| | **5,493,051** | **-** | **5,493,051** |
| Trosglwyddiadau o'r cronfeydd wrth gefn | 2,000,765 | 279,894 | 2,280,659 |
| **Cyllideb Net ddiwygiedig** | **7,493,816** | **-** | **7,773,710** |

2.2 Mae dadansoddiad manwl yn atodiad 1 yn dangos y gyllideb net ddiwygiedig fesul gwasanaeth ar 31ain o Orffennaf 2023. Mae'r atodiad hefyd yn manylu ar y trosglwyddiadau i mewn ac o'r cronfeydd wrth gefn. Roedd yr adroddiad gwreiddiol yn cyflwyno'r gyllideb yn cynnwys £850,000 ar gyfer y cynlluniau T.C.Ll.C a swm cyffelyb fel cyfraniad o'r cronfeydd. Mae'r swm yma wedi ei eithrio o'r tabl uchod gan nad yw'n berthnasol i'r gyllideb net, mae hyn yn dod â swm y gyllideb wreiddiol net i £7,493,816.

2.3 Roedd gostyngiad net cyn ychwanegu 'llithriant' o £20,396 yn y gyllideb sylfaenol. Addaswyd y gyllideb o £7,493,816 (fel y cymeradwywyd ym mis Chwefror 2023) i £7,473,420 o ganlyniad i'r canlynol:

- £92,000 addasiad i'r gyllideb Incwm llog
- £7,116 addasiad swyddi a chyflogau Corfforaethol
- £55,960 addasiad swyddi a chyflogau Cynllunio a Rheoli Tir
+ £45,710 addasiad i gyllideb ar gyfer Yswiriant.
+ £27,090 addasiad i gyllideb TG
+ £44,880 addasiad i gyllideb cynlluniau cyfalaf
+ £17,000 addasiad ad-daliad canolog ERAMMP

2.4 Mae'r addasiadau uchod wedi golygu addasiad i'r cyfraniadau sydd eu hangen o gronfeydd yr Awdurdod i gwrdd â'r gyllideb. Mae ffigwr y gyllideb wreiddiol o £2,000,765 wedi ei ostwng i £1,980,369 cyn ychwanegu £300,290 o arian a gariwyd drosodd o 2022/23 o'r gronfa llithriant. Mae £1,488,160 o'r cyfraniadau yma eisoes wedi eu hadnabod o gronfeydd penodol gan gynnwys cynlluniau grant penodol megis LIFE - Coedwigoedd Celtaidd a nifer o gynlluniau cyfalaf.

2.5 Mae gweddill i'w adnabod i gwrdd a'r gyllideb ar hyn o bryd yn £492,210. Pwysleisir gall y ffigwr yma amrywio gydag addasiadau pellach i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn ac effaith unrhyw orwariant/tanwariant. Mae'r Tîm Rheoli wedi adnabod ffynonellau ar gyfer cwrdd â'r her yma gyda'r sefyllfa i'w fonitro hyd at ddiwedd y flwyddyn. Bydd angen ystyried effaith unrhyw newidiadau sylweddol yn y cyfamser cyn penderfynu'r ffynhonnell i'w ddefnyddio i gwrdd â'r her ac i baratoi ar gyfer 2024/25.

## 3. CYLLIDEB GYFALAF DIWYGIEDIG

3.1 Dangosir crynodeb o'r gyllideb net ddiwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf 2023-24 yn y tabl canlynol, gyda'r manylder yn Atodiad 2. Nid yw cynlluniau grant cyfalaf T.C.Ll.C 2023/24 wedi eu cynnwys gan fod gwariant ar y grantiau yma yn cael ei hawlio yn ôl gan olygu dim cost i'r Awdurdod.

**Cyllideb Cyfalaf 2023/24**

| Meysydd Gwasanaeth | Cyllideb Gros Wreiddiol (£) | Incwm Grant (£) | Cyllideb Net Wreiddiol (£) | Trosgl. Cynt (£) | Cyllideb Net Ddiwyg. (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a Rheoli Tir | 122,630 | - | 122,630 | 120,316 | 242,946 |
| Corfforaethol | 381,340 | - | 381,340 | 98,573 | 479,913 |
| **Cyfanswm** | **503,970** | **-** | **503,970** | **218,889** | **722,859** |

3.2 Deillir yr addasiadau yma o addasiadau i'r gyllideb yn dilyn yr alldro a'r swm sy'n weddill yn y gronfa grantiau cyfalaf. Mae addasiadau eraill o ganlyniad i geisiadau gan benaethiaid i ychwanegu cynlluniau hanesyddol i'r gyllideb gan fod bwriad i'w cyflawni yn ogystal ag ychwanegu llithriant cyfalaf 2022/23.

3.3 Mae gwariant hyd yma ar gynlluniau cyfalaf nad oedd wedi eu cynnwys yn y gyllideb wreiddiol. Mae'r rhain yn cynnwys y cynlluniau T.C.Ll.C lle mae £174,933 o wariant hyd at ddiwedd Gorffennaf. Mae gwariant hefyd ar nifer o gynlluniau grant hanesyddol sydd heb eu cyflawni am amryw o resymau megis y pandemig Cofid-19, diffyg adnoddau neu oedi cyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau wedi eu hariannu o grantiau Llywodraeth Cymru ac o ffynonellau eraill lle trosglwyddwyd yr arian i gronfeydd wrth gefn. Ar Gorffennaf 31[ain] roedd y gwariant ar y cynlluniau yma yn £82,279 gyda disgwyl i'r gwariant terfynol gael ei ariannu o gronfeydd sydd wedi ei neilltuo yn benodol neu arian mae darparwyr grant yn fodlon ei arallgyfeirio.

## 4. SEFYLLFA RAGWELEDIG 2023-24

4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r cynnydd yn erbyn y gyllideb hyd at 31[ain] o Orffennaf 2023, a chymhariaeth gyda'r un cyfnod yn 2022/23.

| **Gwasanaethau** | **Cyllideb Net Ddiwygiedig** | **Gwariant Net hyd yma** | **Cymhariaeth 2022/23** | **Gwahaniaeth** |
|---|---|---|---|---|
| | (£) | (£) | (£) | (£) |
| | | | | |
| Cynllunio a Rheoli Tir | 2,278,598 | 728,926 | 725,150 | - 3,776 |
| Corfforaethol | 5,221,703 | 1,410,588 | 1,543,135 | 132,547 |
| Balansau, cronfeydd wrth gefn a darpariaethau | 261,600 | - | - | - |
| **Cyfanswm Gwariant i wasanaethau** | **7,761,901** | **2,139,515** | **2,268,285** | **128,770** |
| | | | | **-** |
| Llog â enillwyd ar gronfeydd dros ben | - 120,000 | - 66,694 | - 7,944 | 58,750 |
| Cyfraniad Refeniw ar wariant Cyfalaf | 722,859 | 353,891 | 142,574 | - 211,317 |
| Addasiadau Taliadau Cyfalaf | - 591,050 | - 197,120 | - 197,120 | - |
| **Cyllideb Refeniw Net** | **7,773,710** | **2,229,592** | **2,205,795** | **- 23,797** |
| | | | | |
| **Rhagolwg Balans Net (+)/ diffyg (-) ar gyfer 2022/23** | | | | |
| | | | | |
| **Arianwyd o:** | | | | |
| Grant Parc Cenedlaethol | 4,119,789 | | | |
| Lefi Awdurdod Cyfansoddol | 1,373,262 | | | |
| Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn | 2,000,765 | | | |
| **Cyllideb Net Wreiddiol** | **7,493,816** | | | |
| | | | | |
| Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn | 279,894 | | | |
| **Cyllideb Net Ddiwygiedig** | **7,773,710** | | | |

4.2 I grynhoi, mae'r sefyllfa o ran gwariant net y gwasanaethau yn cymharu'n ffafriol o gymharu â 2022/23. Y rheswm pennaf am y newid yw mwy o incwm Meysydd Parcio wedi ei dderbyn o gymharu â'r un cyfnod yn 2022/23. Fel y disgwyl, mae gwariant yn uwch ar elfennau a effeithir gan chwyddiant, yn benodol ar ynni. Addaswyd y gyllideb ar gyfer cwrdd â'r her yma yn 2023/24 a hyd yma mae'r gyllideb yn ymddangos yn ddigonol.
Mae'r lefel chwyddiant hefyd wrth gwrs yn golygu bod cyfraddau llog yn parhau'n uchel gan arwain at incwm llog sylweddol i'r Awdurdod.
Bydd angen trafodaethau pellach rhwng y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Rheoli yn ystod y flwyddyn ariannol i drafod unrhyw addasiad pellach i'r gyllideb neu i gwrdd ag unrhyw wariant annisgwyl.

Cyflwynir isod esboniadau am rai o'r addasiadau ers y gyllideb wreiddiol ac unrhyw amrywiannau a ragwelir hyd yma.

4.3 **Corfforaethol**:

Plas Tan y Bwlch – Cynyddwyd cyllideb Plas Tan y Bwlch ar gyfer 2023/24 er mwyn cwrdd ag effaith chwyddiant ar gostau ynni ac ar hyn o bryd mae gwariant ar ynni o fewn y gyllideb. Er bod gwariant ar wasanaethau a chyflenwadau yn uwch na'r gyllideb, mae'r incwm hefyd yn rhagori ar y targed er bod y targed wedi ei gynyddu ar gyfer 2023/24.

Meysydd Parcio, Casglu Sbwriel a Chyfleusterau Ymwelwyr - Mae incwm Meysydd Parcio yn uchel hyd yma eleni gyda £550k o incwm wedi ei dderbyn hyd at ddiwedd Gorffennaf yn erbyn targed am y flwyddyn o £830k. Mae targed incwm Llyn Tegid o £26k eisoes wedi ei gwrdd gyda £59k o incwm wedi ei dderbyn. Adlewyrchir hyn gyda'r gorwariant sylweddol ar gasglu sbwriel sydd eisoes wedi mynd dros y gyllideb o £19k am y flwyddyn gyda gwariant o £28k. Mae gwaith sylweddol ar y gweill ar Hafod Eryri yn ogystal â Phlas Tan y Bwlch. Gall hyn olygu bydd angen i warged incwm disgwyliedig gael ei neilltuo ar gyfer gwariant ar eiddo'r awdurdod megis Cyfleusterau Ymwelwyr a Phlas Tan y Bwlch.

Rheolaeth Gorfforaethol - Mae'r gyllideb ar gyfer yswiriant wedi ei gynyddu o £45.7k i adlewyrchu'r cynnydd yn y costau yn ystod 2022/23 a'r amcan gan y cwmnïau yswiriant ar gyfer 2023/24. Mae codiad cyflog i'r Tîm Rheoli ynghyd ac ychwanegu dau hicyn i'r cyfarwyddwyr wedi cynyddu'r gyllideb o £19.5k.

Ymgysylltu a Chynllun Rheolaeth a Phartneriaethau - Mae nifer o addasiadau mewnol o fewn y gwasanaethau yma ar staff gydag effaith ar wasanaethau megis rheoli'r wefan ac Wyddfa Di-blastig, adlewyrchir y rhain yn atodiad 1.

4.4 **Cynllunio a Rheoli Tir**: Ar y cyfan, mae'r gwariant net hyd yma o fewn y gyllideb. Mae yna amrywiaethau o fewn y gwasanaethau fel ymhelaethir arnynt isod.

Treftadaeth Ddiwylliannol a Carneddau - Mae'r cynlluniau ynghlwm â'r pennawd yma yn gynlluniau lle disgwylir i grantiau eu hariannu. Bydd rhaid aros nes mae'r hawliadau terfynol yn cael eu cyflwyno cyn gallu adnabod unrhyw ddiffyg posib.

Cynllunio - Mae'r gwariant o fewn y gyllideb ar hyn o bryd gydag incwm ffioedd cynllunio yn uchafu'r targed yn y gyllideb. Mae gwariant ar gyflogau hefyd yn isel o ganlyniad i newidiadau a staff yn gadael/swyddi gwag. Fodd bynnag mae hyn wedi arwain at ddiffyg o fewn y gwasanaeth a'r angen i'w gwrdd gyda gwariant ar ymgynghorwyr allanol. Mae disgwyl i'r drefn yma barhau am rhai misoedd tra mae'r broses recriwtio yn parhau a bydd angen monitro'r sefyllfa o ran y gyllideb.

Ysgwrn - Mae gorwariant bychan yn erbyn y gyllideb net ar hyn o bryd ond y sefyllfa yn well na'r un cyfnod yn 2022/23. Nid yw'r gyllideb a'r targed incwm wedi ei addasu gan osod targed mwy cyraeddadwy, yn hytrach mae'n parhau fel y targed yn 2022/23.

Cadwraeth, Coed ac Amaeth - Mae nifer o gynlluniau sydd ynghlwm â'r gwasanaeth yma wedi eu hariannu drwy grantiau megis cynlluniau Mawndiroedd ac Ymylon Eryri. Mae'n debygol bydd y gwariant yma yn cael ei hawlio yn ôl drwy grant o fewn y flwyddyn. Gan nad oedd sicrwydd o rai o'r grantiau pan osodwyd y gyllideb yn wreiddiol mae'r gyllideb ar gyflogau rhai o'r cynlluniau wedi eu nodi yn erbyn y waelodlin rhag ofn. Ni ragwelir sefyllfa lle nad yw'r grantiau ar gael ar hyn o bryd ac yn eithrio unrhyw newid i'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn mae disgwyl tanwariant ar gyflogau o fewn y gwasanaeth.

4.5 **Balansau, Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau** – Mae'r ddarpariaeth chwyddiant gwreiddiol o £30,000 yn parhau heb ei ddosrannu ar hyn o bryd, yn ogystal â'r ddarpariaeth chwyddiant cyflogau o £231,600. Nid oes penderfyniad ar y codiad cyflog wedi ei gytuno gan yr undebau ar hyn o bryd.

4.6 **Costau Cyflog** - Mae'r Awdurdod wedi darparu 5% tuag at chwyddiant cyflogau, gall y ffigwr yma fod yn uwch ond nid oes sicrwydd ar hyn o bryd. Mae'r Awdurdod bellach wedi cymeradwyo cynnydd cyflog i swyddi'r Tîm Rheoli gan fod yr undebau wedi cytuno ar raddau cyflog diwygiedig i Brif Swyddogion. Mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y gyllideb ond nid yw'r ddarpariaeth chwyddiant wedi ei neilltuo i gwrdd â hyn.

4.7 **Llog** : Mae'r cyfraddau llog yn parhau i gynyddu yn sgil sefyllfa'r economi. O ganlyniad mae'r incwm llog yn sylweddol uwch na'r targed gwreiddiol o £28,000. Ar ddiwedd Gorffennaf roedd yr incwm llog yn £66,694. Mae'r gyllideb (targed) ar gyfer incwm llog, felly, wedi ei gynyddu i £120,000.

4.8 **Cyfalaf**: Mae'r prif wariant net hyd ddiwedd Gorffennaf yn cynnwys -

| | |
|---|---|
| Cynllun Cronfa Dreftadaeth y Loteri Dolgellau | £49,270 |
| Adfywio Harlech (Grant. Ll. Cymru) | £24,555 |
| Cader Idris (Grant. Ll. Cymru) | £38,542 |
| Prosiect Tŷ Natur | £32,126 |
| Terfynau Traddodiadol (T.C.Ll.C ar y cyd) | £24,859 |
| Twristiaeth (T.C.Ll.C) | £17,950 |
| Eryri – Carbon a Ni (T.C.Ll.C) | £119,295 |
| Natur Eryri (T.C.Ll.C) | £12,777 |

4.9 Ar hyn o bryd nid oes disgwyl i wariant cyfalaf gynyddu tu hwnt i'r symiau o arian sydd eisoes wedi ei neilltuo mewn cronfeydd gan yr Awdurdod. Fodd bynnag gall hyn amrywio yn sgil cynnydd costau deunyddiau a llafur o ganlyniad i chwyddiant. Mae cynlluniau ar y gweill ar atgyweirio ac addasu eiddo'r awdurdod gyda'r angen i gynllunio a chanfod ffynonellau priodol ar gyfer unrhyw wariant yn ystod y flwyddyn.

## 5. TROSGLWYDDIADAU RHWNG CYLLIDEBAU DROS £30,000 ER SYLW'R AWDURDOD.

5.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth rhwng £30,000 a £100,000 rhwng cyllidebau, lle nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo yn flaenorol gan yr Awdurdod. Yn ogystal mae angen cymeradwyaeth yr Awdurdod i unrhyw drosglwyddiad gwerth £100,000 neu fwy.

5.2 Nid oes unrhyw drosglwyddiadau wedi eu cymeradwyo yn ystod pedwar mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon.

5.3 Bydd angen trosglwyddo arian o gyllideb cyfalaf Cynlluniau Treftadaeth Ddiwylliannol i gyllideb cynllun cyfalaf Treftadaeth Treflun Dolgellau yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r trosglwyddiad wedi ei weithredu ar hyn o bryd gan ragwelir yr angen i drosglwyddo rhan o'r arian tuag at y gwasanaeth 'refeniw' ynghyd a chynllun Harlech ac Ardudwy.

## 6. ARGYMHELLIAD

- **Derbyn yr adroddiad a nodi sefyllfa ariannol ddiweddaraf 2023/24.**

## 7. PAPURAU CEFNDIROL

**Dim**

**Atodiad 1**

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
## Cyllideb Ddiwygiedig 2023/24 ar 31 o Orffennaf 2023

| | Cyllideb Sylfaenol | Trosglwyddiadau | Cyllideb Net Ddiwygiedig |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **CYNLLUNIO A RHEOLI TIR** | | | |
| Coedwigwyr (T.C.Ll.C.) | | | |
| Cadwraeth, Coed ac Amaeth | 585,410 | 10,701 | 596,111 |
| Awyr Dywyll | 54,430 | 10 | 54,440 |
| LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd | 588,820 | - | 588,820 |
| Partneriaeth Tirwedd y Carneddau | 24,995 | 5 | 25,000 |
| Archeoleg | 65,000 | 11,500 | 76,500 |
| Treftadaeth Diwylliannol | 75,780 | - | 75,780 |
| Treftadaeth Treflun Dolgellau | 24,630 | - | 24,630 |
| Cynllun Harlech ac Ardudwy | 53,880 | - 13,560 | 40,320 |
| Ysgwrn | 113,040 | - 3,593 | 109,447 |
| Cynllunio | 723,200 | - 35,650 | 687,550 |
| **Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen** | **2,309,185** | **- 30,587** | **2,278,598** |
| | | | |
| **CORFFORAETHOL** | | | |
| Costau Aelodau | 112,510 | - | 112,510 |
| Cefnogaeth yr Awdurdod | 91,530 | 750 | 92,280 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 597,001 | 85,344 | 682,345 |
| Eiddo | 241,400 | 4,410 | 245,810 |
| Cyfreithiol | 56,320 | 6,000 | 62,320 |
| Gweinyddol a Gofal Cwsmer | 218,990 | 93 | 219,083 |
| Cyfieithu | 106,000 | - | 106,000 |
| Personel a Hyfforddiant | 149,910 | - | 149,910 |
| Pencadlys | 260,370 | 456 | 260,826 |
| Systemau Gwybodaeth | 355,350 | 27,090 | 382,440 |
| Cyllid | 294,230 | 2,840 | 297,070 |
| Plas Tan y Bwlch | 462,100 | - | 462,100 |
| Ymgysylltu | 490,740 | - 41,280 | 449,460 |
| Safle Gwe Newydd | 15,550 | 39,800 | 55,350 |
| **Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen** | **3,452,001** | **125,503** | **3,577,504** |

| | | | Atodiad 1 parh. |
|---|---|---|---|

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
**Cyllideb Ddiwygiedig 2023/24 ar 31 o Orffennaf 2023**

| | Cyllideb Sylfaenol | Trosglwyddiadau | Cyllideb Net Ddiwygiedig |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Is-gyfansymiau a Ddygwyd Ymlaen** | | | |
| **CYNLLUNIO A RHEOLI TIR** | **2,309,185** | **- 30,587** | **2,278,598** |
| | | | |
| **CORFFORAETHOL** | **3,452,001** | **125,503** | **3,577,504** |
| Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (Grant Ll.C.) | 36,080 | - | 36,080 |
| Llwybrau Llesiant (Grant Ll.C.) | 40,000 | - | 40,000 |
| Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau | 345,770 | - 5,537 | 340,233 |
| Wyddfa Di-Blastig | - | 50,610 | 50,610 |
| Canolfannau Gwybodaeth | 165,920 | - | 165,920 |
| Llyn Tegid | - 26,410 | 4,866 | - 21,544 |
| Meysydd Parcio | - 502,720 | 240 | - 502,480 |
| Clirio Ysbwriel | 19,510 | - | 19,510 |
| Traffig a Chludiant | 5,000 | - | 5,000 |
| Cyfleusterau Ymwelwyr | 263,450 | 11,770 | 275,220 |
| Mynediad Cyhoeddus | 123,940 | - | 123,940 |
| Wardeniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfoddolwy | 1,115,570 | - 3,860 | 1,111,710 |
| | **5,038,111** | **183,592** | **5,221,703** |
| | | | |
| **BALANSAU** | | | |
| Darpariaeth chwyddiant cyffredinnol | 30,000 | - | 30,000 |
| Darpariaeth chwyddiant cyflogau | 231,600 | - | 231,600 |
| | **261,600** | **-** | **261,600** |
| | | | |
| | **7,608,896** | **153,005** | **7,761,901** |
| **CYFANSWM** | | | |
| Llog a Enillwyd | - 28,000 | - 92,000 | - 120,000 |
| Refeniw yn Ariannnu Gwariant Cyfalaf | 503,970 | 218,889 | 722,859 |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf | - 591,050 | | - 591,050 |
| | **7,493,816** | **279,894** | **7,773,710** |
| **ARIANWYD O** | | | |
| Grant Parc Cenedlaethol | 4,119,789 | | 4,119,789 |
| Lefi Awdurdodau Cyfansoddol | 1,373,262 | | 1,373,262 |
| Tros. o'r cronfeydd wrth gefn | 2,000,765 | 279,894 | 2,280,659 |
| **Cyllideb Net** | **7,493,816** | | **7,773,710** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Atodiad 2** |
| **Cyllideb Cyfalaf 2023/24** | | | | | |
| **Meysydd Gwasanaeth** | **Cyllideb Gros Wreiddiol** | **Incwm Grant** | **Cyllideb Net Wreiddiol** | **Trosgl.** | **Cyllideb Net Ddiwyg.** |
| | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| **Cynllunio a Rheoli Tir** | | | | | |
| Cynlluniau Treftadaeth Ddiwylliannol | 72,000 | - | 72,000 | 70,316 | 142,316 |
| Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau | - | | - | - | - |
| Cynllun Harlech ac Ardudwy | - | - | - | 50,000 | 50,000 |
| Carneddau - Data LiDAR (Grant Ll. C.) | 15,630 | - | 15,630 | - | 15,630 |
| Carneddau - Llwybrau (Grant Ll. C.) | 35,000 | - | 35,000 | - | 35,000 |
| | | | | | |
| **Is-gyfanswm** | **122,630** | **-** | **122,630** | **120,316** | **242,946** |
| | | | | | |
| **Corfforaethol** | | | | | |
| Systemau gwybodaeth - Rhaglen Amnewid. | 22,340 | - | 22,340 | - | 22,340 |
| System TG - Cynllunio (Grant Ll. C.) | - | - | - | 47,314 | 47,314 |
| Dathliadau 70 oed (Grant Ll. C.) | 15,000 | - | 15,000 | - | 15,000 |
| Cynllun Partneriaeth y Wyddfa (Grant Ll. C.) | 15,000 | - | 15,000 | - | 15,000 |
| Cynllun Dehongli'r Wyddfa (Grant Ll. C.) | 25,000 | - | 25,000 | - | 25,000 |
| Betws y Coed (Grant Ll. C.) | 72,000 | - | 72,000 | - 8,220 | 63,780 |
| Prosiectau Mynediad | 10,000 | - | 10,000 | 660 | 10,660 |
| Wardeniaid - Cerbydau | 14,000 | - | 14,000 | 55,719 | 69,719 |
| Penmaen Brith (Grant Ll. C.) | 25,000 | - | 25,000 | - | 25,000 |
| Llyn Cynwch (Grant Ll. C.) | 70,000 | - | 70,000 | - | 70,000 |
| Nant Gwynant (Grant Ll. C.) | 38,000 | - | 38,000 | - | 38,000 |
| Cadair Idris (Grant Ll. C.) | 75,000 | - | 75,000 | - 6,900 | 68,100 |
| Wyddfa Di-blastig | - | - | - | 10,000 | 10,000 |
| | | | | | |
| **Is-gyfanswm** | **381,340** | **-** | **381,340** | **98,573** | **479,913** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | **503,970** | **-** | **503,970** | **218,889** | **722,859** |

**CYD-WEITHGOR LLEOL**
**DYDD GWENER, 30 MEHEFIN 2023**

***PRESENNOL*** :

**Cynrychiolwyr Cyflogwr**
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Ifor Glyn Lloyd; Sarah Hattle.

**Cynrychiolydd Gweithwyr - Unsain**
Rhydian Roberts;

**Yn Bresenol**
Emyr Williams, Nia Murray, Anwen Gaffey.

Cynghorodd y Prif Weithredwr fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i ddilysu'r cofnodion.

1. **Cadeirydd**
   **PENDERFYNWYD ethol Sarah Hattle yn Gadeirydd y Cyd Weithgor Lleol am y flwyddyn i ddod.**

2. **Is-Gadeirydd**
   **PENDERFYNWYD ethol Rhydian Roberts yn Is-Gadeirydd y Cyd Weithgor Lleol am y flwyddyn i ddod.**

3. **Ymddiheuriadau**
   Cynghorydd Kim Jones
   Richard Thomas, Unsain
   Ms. Celia Kelly, GMB
   Mr. G. Iwan Jones
   Cynghorydd Annwen Hughes, Mr. Tim Jones (ex. officio)

4. **Datgan Budd**
   Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

5. **Cofnodion**
   Derbyniwyd cofnodion y Cyd Weithgor Lleol a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2022 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

   Yn codi wedi hynny,
   <u>Para. 5 Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)</u> – nododd yr Aelodau fod y Prif Weithredwr a chynrychiolydd yr Undebau Llafur wedi paratoi ac anfon ymateb terfynol ymlaen.
   <u>Para. 8 2023/24 Cyllid</u> – dywedodd y Prif Weithredwr fod yr Awdurdod wedi derbyn cyllid munud olaf gan Lywodraeth Cymru mewn ymgais i wrthbwyso effaith chwyddiant dros y flwyddyn gyfredol. Roedd yn ffafrio bod yn ofalus ac nid oedd eto wedi ystyried awgrym y Gweinidog y dylai'r Awdurdod ystyried gwneud llai dros y ddwy flynedd nesaf. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod swyddi gweigion yn cael eu llenwi, yn ddarostyngedig i achos busnes boddhaol, a bod recriwtio wedi gwella yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod i godi cyflogau staff o ddau bwynt cynyddrannol ar draws y feingefn gyflog.

   **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.**

6. **Polisi Perthynas yn y Gwaith**

Cyflwynwyd – Adroddiad er gwybodaeth gan y Pennaeth Adnoddau Dynol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau Dynol yr adroddiad a'r polisi a rhoddodd y cefndir i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a derbyn y Polisi Perthynas yn y Gwaith, er gwybodaeth.**

7. **Holiadur Staff – Archwilio Amrywiol Batrymau Gweithio Hyblyg ar gyfer yr Awdurdod**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol i roi cefndir a chanlyniad yr Holiadur Staff.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau Dynol ganfyddiadau'r adroddiad a'r holiadur yn fanwl.

Trafododd yr aelodau a’r swyddogion yr adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- Roedd yr Aelodau'n bryderus mai dim ond 48% o staff yr Awdurdod oedd wedi ymateb i'r holiadur ond cawsant eu cysuro pan gawsant wybod bod hyn yn gyson â'r niferoedd arferol. Hefyd, efallai bod staff nad oeddent wedi'u lleoli yn y Pencadlys ym Mhenrhyndeudraeth wedi teimlo nad oedd yr holiadur yn berthnasol iddynt.
- cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod aelodau o staff y mae'n well ganddynt weithio yn y swyddfa'n llawn amser yn gallu gwneud hynny. Hefyd, os bydd unrhyw faterion perfformiad yn codi o'r trefniadau gweithio newydd, gellir galw staff yn ôl i'r swyddfa i weithio ar unrhyw adeg.
- rhoddodd y Pennaeth Adnoddau Dynol amlinelliad byr i'r Aelodau o'r camau nesaf a dywedodd fod rheolwyr bellach wedi edrych ar bob disgrifiad swydd o fewn eu gwasanaeth ac wedi cytuno â'u staff pa rolau yr ystyriwyd eu bod yn weithwyr hybrid / parhaol yn y swyddfa / o bell ac ati. Bydd y gwaith hwn yn awr yn cael ei adolygu gan grŵp o staff, yn debyg i banel gwerthuso swyddi, i sicrhau bod y meini prawf wedi'u cymhwyso'n gyson. Yn dilyn hyn, bydd peilot i dynnu oriau craidd yn ôl a chaniatáu mwy o hyblygrwydd yn cael ei dreialu. Mae hyn wedi bod yn gweithio'n effeithiol mewn awdurdodau lleol a sefydliadau eraill, er y bydd angen i reolwyr gadw at ganllawiau cadarn a chyson i sicrhau bod y polisi'n cael ei gymhwyso'n gyfartal ac yn effeithiol.
- nododd Aelod bryderon ynghylch argaeledd swyddogion yn ystod oriau swyddfa a oedd, yn ei farn ef, eisoes yn broblem. Gofynnodd y Prif Weithredwr i nodyn anffurfiol gael ei wneud i gofnodi digwyddiadau o'r fath gan fod disgwyl ar hyn o bryd i swyddogion ddarparu manylion ynghylch ble y gellir cysylltu â nhw er budd staff swyddfa.
- Dywedwyd wrth yr aelodau bod gweithio hybrid wedi arwain at lai o absenoldebau salwch. Roedd y staff yn hapus i weithio gartref os oedd ganddynt annwyd neu ffliw ac ati, ond ni fyddent wedi mynychu'r swyddfa.
- roedd yr holiadur wedi amlygu'r angen i sicrhau bod rheolwyr yn bresennol pan fydd staff newydd yn dechrau eu cyflogaeth ac i wneud yn siŵr bod yr aelod newydd o staff yn teimlo'n rhan o dîm.
- Roedd yr aelodau wedi'u calonogi gan yr ymateb i'r holiadur bod y staff yn cytuno'n gryf / cytuno bod yr Awdurdod yn lle da i weithio.
- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau Dynol fod Eryri yn gweithio gyda swyddogion o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill y DU a fydd yn eu tro yn caniatáu treialu mwy nag un model. Nododd yr Aelodau nad oedd y ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall yng Nghymru wedi adolygu eu harferion

gwaith eto. Roedd y Prif Weithredwr o'r farn y gallai Parc Cenedlaethol y Peak District a Pharc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd fabwysiadu system debyg i Eryri.

- cytunodd cynrychiolydd yr Undebau Llafur fod yr holiadur yn dangos cefnogaeth gan y staff ond pwysleisiodd bwysigrwydd bod Rheolwyr yn gweithredu'r polisi mewn modd cyson. Hefyd, gellid darparu rhagor o hyblygrwydd i staff drwy ganiatáu iddynt wneud defnydd o swyddfeydd / mannau eraill sydd ym mherchnogaeth yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chroesawu'r ffordd ymlaen arfaethedig.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.05**